



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21

Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch

### Gweithio Tuag At Amcanion Hirdymor

**Ymateb i'r  
Argyfwng Newid  
Hinsawdd**

**Ymateb i Golli  
Bioamrywiaeth**

**Tirweddau i  
Bawb**

**Llewyrchus:** Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

**Cydnherth:** Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol

**Iechyd a Lles:** Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau

**Cydraddoldeb:** Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.

**Cymunedol:** Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.

**Diwylliant:** Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.

**Byd-eang:** Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

<b>Cynnwys</b>	
Cyflwyniad – Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau	3
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	6
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	7
Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	7
Nodau Llesiant Cymru	8
Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP	8
Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn ein Gwaith	11
Rheoli cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a Dyletswydd Adran 6	11
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd	11
CNC – Datganiad Ardal De Orllewin Cymru	12
Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth	12
Prosiectau'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro	13
Cynllun Cydraddoldeb	13
Strategaeth Iaith Gymraeg	13
Cyllid	13
Adran 1: Adran ar y Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig (Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch)	15
Sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn pob maes gwaith ar gyfer yr amcan hwn	16
Adran 2: Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor	25
Cyflawni'r Amcan Llesiant Llewyrch yn y Tymor Hir	27
Cyflawni'r Amcan Llesiant Cydnerthedd yn y Tymor Hir	35
Cyflawni'r Amcan Llesiant Iechyd a Llesiant yn y Tymor Hir	41
Cyflawni'r Amcan Llesiant Cydraddoldeb yn y Tymor Hir	47
Cyflawni'r Amcan Llesiant Cymunedau yn y Tymor Hir	53
Cyflawni'r Amcan Llesiant Diwylliant yn y Tymor Hir	57
Cyflawni'r Amcan Llesiant Byd-eang yn y Tymor Hir	62
Cyflawni Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Cydnerthedd y Gweithlu a'i Ddatblygu yn y Tymor Hir	66
Atodiad 1: Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros ar y Nod Llesiant	72
Atodiad 2: Ffrydiau Gwaith yn erbyn y Pum Ffordd o Weithio a Nodau Llesiant Cymru	73

Gellir anfon sylwadau ar y fersiwn hon neu fersiynau eraill o'r Cynllun Corfforaethol i [gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk) gan roi Cynllun Corfforaethol fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â [gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk) / 01646 624800

## Cyflwyniad – Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau

### Cynlluniau Corfforaethol ac Adnoddau

Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio i fformat cyffredin o ran ein Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol i fodloni gofynion [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Y ddogfen hon yw ein Cynllun Gwella Blynyddol Rhan 1 ac mae'n nodi ein Hamcanion Llesiant a'r rhaglen waith sy'n gwbl gyson â'r amcanion hynny ar gyfer 2020/21. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion o ddatblygu yn gynaliadwy, ac rydym wedi amlygu'r modd y caiff yr egwyddorion hynny eu hymgorffori yn y gwaith a gyflawnir i wireddu ein hamcanion.

### Development of the Plan

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn dechrau ar y gwaith o gynllunio ymlaen ac ar y gwaith o baratoi cyllideb yn ystod mis Hydref er mwyn cymeradwyo cyllideb gytbwys erbyn Chwefror y 15fed. Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn wynebu galw cynyddol, a'r galwadau hynny weithiau yn gwrthdaro, i gyflawni materion cadwraeth, mynediad i'r cyhoedd, cyflogaeth leol a thai fforddiadwy, ar adeg pan fo adnoddau'n cael eu cyfyngu. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydym wedi adolygu'r camau a gymerwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, wedi cynnal trafodaethau gyda'r staff, gan gynnwys sesiwn gyda'r uwch dîm rheoli, wedi cynnal gweithdy i'r Aelodau ar y gyllideb, ac wedi ystyried unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau ac mewn cyllid a allai effeithio ar ein gwaith.

Yn ystod mis Mawrth 2020, bu'r Awdurdod wrthi ochr yn ochr â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill yn ymateb i bandemig COVID-19, rheoliadau newydd cysylltiedig ac yn rhoi mesurau ar waith i amddiffyn ei staff, cymunedau a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo.

Gan bod angen i'r Awdurdod allu ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid gan hefyd ymateb i ddeilliannau tymor hwy, mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 wedi cael ei rannu'n ddwy adran. Mae'r adran gyntaf yn seiliedig ar flaenoriaethau tymor byr a chanolig â ffocws ar ein hymateb i COVID-19 a'n cynlluniau adfer. Mae'r adran hon yn defnyddio dull graddol a fydd yn cynorthwyo'r Awdurdod wrth i ffactorau a rheoliadau allanol newid i fod yn ymatebol ac yn effeithiol o ran ei ddull, gan hefyd sicrhau bod diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei gynnal yn ystod 2020/21. Bydd yn cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod ei gamau gweithredu'n helpu'r broses adfer ar gyfer cymunedau a busnesau yn y Parc a'r ardal o'i amgylch yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19. Byddwn hefyd yn parhau i adnabod ffyrdd o gefnogi'r cyrrff cyhoeddus sy'n bartneriaid inni gyda'u gwaith.

Mae blaenoriaethau a chymau gweithredu hirdymor a oedd yn yr arfaeth yn wreiddiol ar gyfer 2020/21 ac sy'n dal i fod yn berthnasol wedi cael eu cadw yn yr ail adran o'r cynllun. Efallai na fydd rhai gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith yn cael eu cyflawni eleni ond byddant yn sail i gyflawni ein Hamcanion Llesiant ac effeithiau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol dros y tymor hir. Byddant yn cael eu hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn.

**Cynllun Corfforaethol 2020/21**

**Adran 1: Dull graddol yn y Tymor Byr a Chanolig**

**Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch**

**Meysydd Gwaith Blaenoriaeth y Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig**

- ✓ Ymateb yn effeithiol i reoliadau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- ✓ Sicrhau llesiant a diogelwch staff.
- ✓ Rhoi Arferion Gweithio Effeithiol ar Waith
- ✓ Rhoi help llaw, cefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill a'n cymunedau
- ✓ Cynllunio ar gyfer Adferiad
- ✓ Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol
- ✓ Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle
- ✓ Cyflawni ein rhwymedigaethau ariannol
- ✓ Gweithgareddau sy'n ategu amcanion hirdymor yr Awdurdod a monitro effeithiau ar ein gwasanaethau a'n prosiectau



**Adran 2: Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor**

**Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

**Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd**

**Ymateb i Golli Bioamrywiaeth**

**Tirweddau i Bawb**

**Amcanion Llesiant yr Awdurdod**

**Llewyrchus:** Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

**Cydnherth:** Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol

**Iechyd a Lles:** Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau

**Cydraddoldeb:** Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.

**Cymunedol:** Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.

**Diwylliant:** Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.

**Byd-eang:** Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi ym 1952 dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

"Nodweddion arbennig" y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

Hygyrchedd	Ysblander arfordirol
Daereg amrywiol	Amrywiaeth y dirwedd
Treftadaeth ddiwylliannol	Ynsoedd
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Lle i anadlu
Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth	Natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
Cymeriad unigryw aneddiadau	Amrywiaeth y profiadau a'r cyfuniad o nodweddion unigol

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gorchuddio ardal ag arwynebedd o 612km<sup>2</sup>, gydag oddeutu 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat gyda'r Awdurdod yn berchen ar 1% yn unig.



## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol dibenion arbennig annibynnol dan [Ddeddf yr Amgylchedd 1995 \(y Ddeddf\)](#). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwe wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

## Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae [Deddf yr Amgylchedd 1995](#) yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ✓ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ✓ **To promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of the area by the public.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn datgan bod gan yr Awdurdod ddyletswydd wrth arddel y dibenion uchod, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n nodi sut y dymunai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid yn unig gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Cafodd Cynllun newydd Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024 ei gymeradwyo fis Rhagfyr 2019. Mae'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig yn cymryd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y naw egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Y cynllun diwygiedig hwn fydd yn llywio blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol yr Awdurdod o 2020 ymlaen.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yr Awdurdod wedi bod yn mynd drwy archwiliad yn 2019 gyda'r bwriad o fabwysiadu'r Cynllun yn 2020.

## Nodau Llesiant ar gyfer Cymru

Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau hwn wedi'i strwythuro i ystyried gofynion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a bod ein hamcanion yn ystyried y nodau llesiant Cymraeg canlynol o dan y Ddeddf:

Nod	Disgrifiad o'r nod
<b>Cymru lewyrchus.</b>	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
<b>Cymru gydnerth</b>	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
<b>Cymru iachach</b>	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b>	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Datganiad ac Amcanion Llesiant APCAP

Mae gan yr Awdurdod saith o Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu at y Nodau Llesiant a hefyd sy'n ffurfio ein hamcanion gwella am y flwyddyn nesaf o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Ochr yn ochr â hyn mae gennym amcan ychwanegol dros y Tymor Byr a Chanolig, sef bod yn ymatebol, effeithiol a sicrhau diogelwch o ganlyniad i bandemig COVID-19 a bydd hwn yn fesur gwella ychwanegol.



Mae tri ymgyrch Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi cael eu hadnabod ar gyfer yr Awdurdod, sef ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd, Ymateb i Golli Bioamrywiaeth a Thirweddau i Bawb. Mae gweithgareddau sy'n ategu'r meysydd effaith hyn yn gyson â'n hamcanion llesiant cyfredol, gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i'w cyflawni a Nodau Llesiant Cymru.

Mae'r [Asesiad Llesiant](#) a'r [Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro](#), yr [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(ASAN\)](#), [Datganiad Ardal De Orllewin Cymru](#), Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG) a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y [Datganiad Ysgrifenedig Gwerthfawr a Chydnerth, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd](#) yn darparu sail dystiolaeth a chyfeiriad polisi i oleuo gwaith yr Awdurdod tra pery'r cynllun hwn. Yn y dyfodol bydd Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd Sir Benfro a'r ASAN 2 hefyd yn dylanwadu ar waith yr Awdurdod.

Amcanion Llesiant APCAP	Sut rydyn ni'n cyfrannu at nodau llesiant ar gyfer Cymru
<p><b>Dull graddol yn y Tymor Byr a Chanolig:</b> Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru Lewyrchus' – Trwy gyfranogi mewn prosesau paratoi cynlluniau adfer ar gyfer cyrchfannau a hamdden yn y Parc ac adnabod ffyrdd o gefnogi busnesau lleol a'r economi leol.</li> <li>✓ 'Cymru lachach' – Trwy roi rheoliadau a mesurau mynediad ar waith sy'n diogelu iechyd a diogelwch staff, a defnyddwyr gwasanaethau a chefnogi'r ymdrechion ehangach i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 o fewn cymunedau. Bydd cynlluniau adfer yn adnabod ffyrdd y gallwn gynorthwyo pobl lle mae'n bosibl yr effeithiwyd ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol yn ystod y pandemig.</li> <li>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'. 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' – Trwy gynlluniau adfer bydd yr Awdurdod yn amcanu at gynorthwyo cymunedau gyda'r broses adfer ac yn parhau i gefnogi'r cyrff cyhoeddus sy'n bartneriaid iddo yn eu gwaith, lle bynnag y bo'n bosibl.</li> </ul>
<p><b>Llewyrchus:</b> Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru Lewyrchus' – Drwy hyrwyddo busnesau cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy weithio i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol a chynnal yr ased twristiaeth a hamdden allweddol yn y Parc, sef Llwybr yr Arfordir.</li> <li>✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gefnogi twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth hamdden yn y Parc.</li> <li>✓ 'Cymru lachach' – Drwy gynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus a helpu i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cerdded a gweithgareddau cysylltiedig.</li> </ul>
<p><b>Cydnerth:</b> Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru Gydnerth' – Drwy gyfrannu at wella iechyd ecosystem Cymru a cheisio mynd i'r afael â'r mater o golli bioamrywiaeth yn y Parc.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy weithgareddau sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth sydd hefyd yn cefnogi'r her o ymateb i newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd</li> <li>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – Drwy gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn edrych ar ôl ecosystem y Parc.</li> </ul>
<p><b>Iechyd a Lles:</b> Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru Iachach', 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Drwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, bydd profiadau awyr agored i blant, annog gwirfoddolwyr, a chael gwared ar rwystrau i allu manteisio ar yr amcan hwn, yn arwain at fanteision cadarnhaol i les corfforol a meddyliol pobl ac yn helpu i fynd i'r afael â materion megis arwahanrwydd cymdeithasol.</li> </ul>
<p><b>Cydraddoldeb:</b> Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru Iachach', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'- Drwy weithio tuag at gyflawni ein nodau tymor hir yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod a chwalu'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyfleoedd yn y Parc, bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r nodau hyn.</li> </ul>
<p><b>Cymunedol:</b> Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru Gydnerth,' 'Chymru â diwylliant bywiog' – Drwy ddenu cyfraniad cymunedau, cymunedau buddiant megis tîrffeddiannwyr a grwpiau lleol, a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ecosystemau a threftadaeth Cymru.</li> <li>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus.' – Drwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddod ynghyd yn y Parc sydd hefyd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.</li> <li>✓ 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – Drwy gynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau sy'n ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd drwy ailffocysu ffocws y gronfa CDC.</li> </ul>
<p><b>Diwylliant:</b> Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' – Drwy gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n ceisio ennyn cyfranogiad mwy o bobl yn y gweithgareddau hyn.</li> <li>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus,' 'Cymru Gydnerth.' – Drwy ennyn cyfranogiad cymunedau a gwirfoddolwyr i edrych ar ôl safleoedd treftadaeth.</li> </ul>
<p><b>Byd-eang:</b> Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' - Drwy ymateb i her fyd-eang yr argyfwng Newid Hinsawdd, tra hefyd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur, yr awyr agored a threftadaeth i gael eu hysbrydoli i edrych ar ôl a dysgu am y byd o'u cwmpas.</li> <li>✓ 'Cymru Gydnerth', 'Cymru Lewyrchus', 'Cymru Iachach' – Bydd gweithgareddau sy'n ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd hefyd yn cyfrannu at y</li> </ul>

nodau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd.

## Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn ein Gwaith

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy:

Hirdymor	Cydweithio
Atal	Cynnwys
Integreiddio	

O dan bob amcan ceir gweithgareddau sy'n dangos sut y mae'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithio. Mae defnyddio Diogelwyr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi galluogi'r Awdurdod i asesu ei berfformiad yn erbyn ei amcanion mewn ymateb i'r pum ffordd o weithio.

Yn Atodiad 2 ceir matrices sy'n croesgyfeirio gwahanol ffrydiau gwaith yn erbyn Nodau Llesiant Cymru a'r 5 ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Dyletswydd Adran 6

Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn nodi naw egwyddor syml o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y mae angen iddynt fod yn sail i'r modd y mae'r Awdurdod yn gweithio. Y naw hyn yw:

Addasadwy	Tystiolaeth
Graddfa	Hirdymor
Gweithio gyda'n gilydd	Atal
Ymgysylltu â'r cyhoedd	Resilience
Deall yr holl fanteision a gawn ni yn sgil ein hadnoddau naturiol	

Mae hefyd yn ofynnol dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) bod yr Awdurdod yn ystyried y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau dan y Ddeddf. Mae gweithgareddau o fewn ffrydiau gwaith sydd wedi'u bwriadu i gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn enwedig amcanion cydnerthedd a byd-eang yn helpu i integreiddio'r ddyletswydd Adran 6 fel rhan o'n gwaith. Bydd (A6) yn cael ei nodi ar bwys gweithgareddau neu fesurau sy'n cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd.

## Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Yn ystod 2020/21 bydd angen i'r Awdurdod ymateb i unrhyw effeithiau yn ei feysydd gweithredu a achosir gan ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Deyrnas Unedig bellach mewn cyfnod pontio tan fis Rhagfyr 2020. Mae meysydd allweddol yr effeithir arnynt yn cynnwys cyflawni prosiectau cyfredol mewn partneriaeth a ariennir â chyllid Ewropeaidd a datblygu polisi sy'n ymwneud â rheoli

tir. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â chyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## CNC – Datganiad Ardal De Orllewin Cymru

Yn natganiad ardal De-orllewin Cymru CNC, nodir pedair thema y bydd gwaith yr awdurdod tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant ac effeithiau'r cynllun rheoli Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu atynt. Y pedair thema yw:

Lleihau anghydraddoldebau iechyd	Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy
Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth a'l hadfer	Thema drawsbynciol: Llinaru ac addasu l hinsawdd sy'n newid

## Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth

Fis Gorffennaf 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol yn ei ddatganiad ysgrifenedig [Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth](#). Bydd gwaith yr Awdurdod i gyflawni ei Amcanion Llesiant ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at y 10 blaenoriaeth a nodir yn y Datganiad

Tirweddau i bawb	Datblygu twristiaeth a hamdden awyr agored
Enghreifftiau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	Y Gymraeg yn ffynnu
Atal colli bioamrywiaeth	Pob tirwedd yn bwysig
Ynni gwyrdd a datgarboneiddio	Chyflenwi drwy gydweithio
Gwireddu potensial economaidd tirweddau	Arloesi mewn adnoddau

Drwy gyflawni'r blaenoriaethau uchod, bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at nodau ehangach Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu '[Symud Cymru Ymlaen](#)' a '[Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#).'

Hefyd bydd yn cyfrannu at agendâu polisi ehangach gan gynnwys:

- ➔ [Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel Cymru](#)
- ➔ [Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
- ➔ ["Dyfodol llwyddiannus" y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru](#)
- ➔ [Polisi Cynllunio Cymru](#)
- ➔ [Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy \(SMNR\)](#)
- ➔ [Croeso Cymru – Strategaeth Croeso i Gymru](#)

Bydd yr Awdurdod hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi ei gweithgareddau mewn ymateb i Bandemig COVID-19.

### Prosiectau'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro

Bydd gwaith yr Awdurdod tuag at gyflawni ei Amcanion Llesiant ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at brosiectau ehangach o fewn y [Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro](#):

Fframwaith traws newid recriwtio a chyflogaeth	Asesiad Risg Amgylcheddol, a Newid yn yr Hinsawdd
Sir Niwtral o ran Carbon	Gwneud pethau'n wahanol
Dathlu'r awyr agored	Cyfranogiad y gymuned
Deall ein Cymunedau	Ymwneud ystyrlon gan gymunedau

### Cynllun Cydraddoldeb

Yn 2019/20 fe adolygodd yr Awdurdod ei Gynllun a'i Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun a'r amcanion yn cyfrannu at gyrraedd pedwar nod tymor hwy yn y meysydd canlynol:

Y Parc – Tirwedd i Bawb	Ein Gwasanaethau – Yn Hygyrch ac yn Gynhwysol
Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Gefnogol ac Yn Gynhwysol	Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad

Mae gweithgareddau a blaenoriaethau cyfredol sy'n cyfrannu at gyflawni'r cynllun hwn ac Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod wedi cael eu prif ffrydio i mewn i ffrydiau gwaith sydd wedi'u bwriadu i gyflawni ein Hamcanion Llesiant, yn enwedig ein hamcanion o ran ffyniant, iechyd a llesiant a chymunedau.

### Strategaeth y Iaith Gymraeg

Mae gan yr Awdurdod Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022. Gweledigaeth y strategaeth hon yw gweld yr Iaith Gymraeg yn ffynnu ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac i weld cynnydd o 1% o boblogaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2022. Mae gweithgareddau a blaenoriaethau cyfredol sy'n cyfrannu at gyflawni'r strategaeth hon wedi cael eu prif ffrydio i mewn i ffrydiau gwaith sydd wedi'u bwriadu i gyflawni ein Hamcanion Llesiant, yn enwedig ein hamcan o ran diwylliant.

## Cyllid

The Authority's net revenue expenditure for 2020/21 is determined by the Welsh Government, by allocating the annual National Park Grant and levy at £3,939,000. Caiff incwm wedi'i greu gan yr Awdurdod o ryw £1,766,000 ei godi o ffioedd cynllunio, tâl mynediad, gwerthiant nwyddau, meysydd parcio a.y.b.. Oherwydd effaith COVID-19 ar ein gweithgareddau creu incwm, disgwylir y bydd incwm wedi'i greu gan yr Awdurdod yn gostwng yn sylweddol, ac ni wyddom i ba raddau ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â sut i reoli'r diffyg. Mae dadansoddiad manylach o'r gyllideb yn cynnwys codau CIPFA ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Atodiad A.

### Rhagolygon Cyllideb 2020/21

Income	
	£000's
Grant Llywodraeth Cymru	2,954
Ardoll Awdurdod Lleol	985
Incwm a gynhyrchir gan yr awdurdod	1,776
Trosglwyddiad o Gronfeydd	1,010
Llog Banc	15
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,740</b>

Gwariant		
Amcan Llesiant APCAP	Adnoddau (£000's)	
Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy	1,257	18%
Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.	1,128	17%
Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.	983	15%
Parhau l sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.	736	11%
Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu l gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.	749	11%
Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	1,136	17%
Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	751	11%
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,740</b>	<b>100</b>

## Adran 1: Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

### Amcan Llesiant: Ymatebol, Effeithiol ac yn Sicrhau Diogelwch

#### Bydd ein dull:

- ✓ Yn raddol, gan alluogi'r Awdurdod i fod yn ymatebol i newidiadau mewn ffactorau a rheoliadau allanol.
- ✓ Yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- ✓ Wedi'i oleuo gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- ✓ Yn rhoi diogelwch yn gyntaf, gan sicrhau iechyd a diogelwch a llesiant staff, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.
- ✓ Yn gefnogol i staff, cymunedau yn y Parc a chyrrff sy'n bartneriaid yn y Sector Cyhoeddus ehangach.
- ✓ Yn seiliedig ar adfer, gan edrych ymlaen at sut orau i gynorthwyo'r Awdurdod, y Parc a chymunedau lleol a'r economi i gael adferiad.
- ✓ Yn nodi cyfleoedd a all ein helpu i gyflawni amcanion tymor hwy.

#### Meysydd Gwaith Blaenoriaeth y Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

- ➔ Maes Gwaith 1: Ymateb yn effeithiol i reoliadau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- ➔ Maes Gwaith 2: Sicrhau llesiant a diogelwch staff.
- ➔ Maes Gwaith 3: Rhoi Arferion Gweithio Effeithiol ar Waith
- ➔ Maes Gwaith 4: Rhoi help llaw, cefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill a'n cymunedau
- ➔ Maes Gwaith 5: Cynllunio ar gyfer Adferiad
- ➔ Maes Gwaith 6: Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol
- ➔ Maes Gwaith 7: Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle
- ➔ Maes Gwaith 8: Cyflawni ein rhwymedigaethau ariannol
- ➔ Gweithgareddau sy'n ategu amcanion hirdymor yr Awdurdod a monitro effeithiau ar ein gwasanaethau a'n prosiectau (gweler [adran 2 ar weithio tuag at amcanion hirdymor.](#))

Sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn pob maes gwaith ar gyfer yr amcan hwn:

Maes Gwaith 1 – Ymateb yn effeithiol i reoliadau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â COVID-19

Cam Un: Rhoi Rheoliadau a Chanllawiau COVID-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar waith yn effeithiol

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau COVID-19 fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau. Mae ganddo gyfrifoldebau penodol dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i gau rhannau o hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn iechyd y cyhoedd a chyfleu gwybodaeth am gau'r llwybrau hyn.

Camau Blaenoriaeth	Cerrig Milltir
<b>Gweithgaredd:</b> Rheoli a Gweithredu Rheoliadau Mynediad COVID-19: Cau llwybrau, arwyddion, monitro, rheoli'r broses cau a chyfleu gwybodaeth am eu cau	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Arwyddion yn eu lle a theithiau wythnosol i fonitro a sicrhau bod arwyddion yn eu lle.</li> <li>✓ Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd.</li> <li>✓ Cyhoeddi a Chyfleu gwybodaeth am lwybrau sydd ar gau.</li> </ul>
<b>Gweithgaredd:</b> Rheoli a gweithredu prosesau cau Meysydd Parcio a Chanolfannau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Arwyddion yn eu lle a theithiau wythnosol i fonitro a sicrhau bod arwyddion yn eu lle.</li> <li>✓ Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd.</li> <li>✓ Cyhoeddi a Chyfleu gwybodaeth am feysydd parcio a chanolfannau sydd ar gau.</li> </ul>
<b>Gweithgaredd:</b> Sicrhau bod ein safleoedd a thir sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnal gwiriadau diogelwch a gwneud gwaith cynnal a chadw dilynol ar eiddo a berchnogir ac a reolir gan yr Awdurdod.</li> </ul>
<b>Gweithgaredd:</b> Ei gwneud yn bosibl monitro, rheoli a gwneud gwaith torri ar lwybrau hawliau tramwy arfordirol a mewndirol yn ddiogel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynllun gwaith torri ar lwybrau wedi'i gwblhau.</li> <li>✓ Mae Iechyd a Diogelwch staff mewn perthynas â COVID-19 ac arfer cyffredinol yn cael ei gynnal yn ystod gweithgareddau torri a chynnal a chadw.</li> <li>✓ Gwaith diogelwch hanfodol yn cael ei wneud i sicrhau bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ddiogel i'w ddefnyddio.</li> </ul>
<b>Gweithgaredd:</b> Ei gwneud yn bosibl rheoli gweithgareddau cadwraeth hollbwysig, gan gynnwys Pori, yn ddiogel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae gweithgareddau pori (a phorwyr) yn parhau.</li> <li>✓ Gweithgareddau cadwraeth hollbwysig yn cael eu cyflawni.</li> </ul>



## Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau nad yw'r rhaglen gadwraeth yn dirywio.</li> </ul>
<p><b>Gweithgaredd:</b> Cau, atal gweithgareddau, canslo digwyddiadau ac addasu gwasanaethau wyneb yn wyneb (cymhwyso rheoliadau perthnasol ar weithgareddau'r Awdurdod).</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cau canolfannau ac atal darpariaeth wyneb yn wyneb.</li> <li>✓ Parhau â gwasanaethau cynllunio.</li> <li>✓ Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol trwy ddulliau electronig a dulliau eraill nad ydynt yn rhai wyneb yn wyneb.</li> <li>✓ Darparu gweithgareddau ac ymgysylltu rhithwir/digidol lle y bo'n bosibl.</li> </ul>
<p><b>Strategol:</b> Ymgysylltu ag Adrannau Llywodraeth Cymru ynghylch rhoi rheoliadau ar waith</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cyfarfodydd a chyfathrebu rhithwir gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru.</li> </ul>
<p><b>Cam Dau: Ymateb yn effeithiol i lacio'r rheoliadau gan gyflawni ymateb graddol yn ôl y gofyn.</b></p>	
<p><b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b></p>	
<p>Bydd angen i'r Awdurdod ymateb mewn modd graddol i newidiadau mewn rheoliadau gyda ffocws penodol ar newidiadau sy'n ymwneud â rheoliadau mynediad a rheoli hamdden, y rhai sy'n effeithio ar y gweithle a'r rhai sy'n ymwneud ag ymgysylltu wyneb yn wyneb. Yn gysylltiedig â chynlluniau adfer ehangach, bydd angen i'r Awdurdod ddefnyddio dull graddol o ddarparu gwasanaethau, yn seiliedig ar asesiadau risg, cynllunio ar gyfer senarios a dulliau wedi'u haddasu o ran sut y mae'n darparu gwasanaethau ac yn gweithredu. Bydd angen i ddulliau ystyried newidiadau posibl a mesurau y bydd angen eu rhoi ar waith os ceir tonnau o'r feirws yn y dyfodol.</p>	
<p><b>Camau Gweithredu Graddol</b></p>	<p><b>Cerrig Milltir</b></p>
<p><b>Gweithgaredd:</b> Rheoli a gweithredu newidiadau i Reoliadau Mynediad COVID-19 a rheoliadau eraill sy'n effeithio ar reoli hamdden yn ehangach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Rheolaeth raddol ar newidiadau i reoliadau mynediad neu reoliadau sy'n effeithio ar reoli hamdden.</li> <li>✓ Gweithio mewn partneriaeth gyda rheolwyr tir eraill megis CSP a'r YG i sicrhau dull sy'n gyson yn rhanbarthol</li> </ul>
<p><b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cynllunio a rheoli cyfleoedd graddol i agor Canolfannau a gwasanaethau wyneb yn wyneb. Gan gynnwys Canolfannau, y gwasanaeth addysg, cyfleoedd gwirfoddoli/ gweithredu cymdeithasol, gweithgareddau ymgysylltu â chymunedau ac allgymorth, digwyddiadau a gweithgareddau, cyflawni prosiectau (Pwyth mewn Pryd, Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr, Cerdded â Chymorth ac ati), gwasanaeth cynllunio wyneb yn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Asesiadau risg wedi'u cwblhau a dulliau darparu wedi'u haddasu'n cael eu mabwysiadu (wrth i reoliadau gael eu hymllacio.)</li> <li>✓ Iechyd a Diogelwch staff, y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â COVID-19 yn cael eu cynnal wrth i'r gwaharddiad ar weithgareddau gael ei godi.</li> </ul>

wyneb, cyswllt wyneb yn wyneb â thirfeddianwyr ac eraill, derbyniadau a chyfarfodydd mewnol/ allanol.

**Canlyniad**

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn cefnogi'r ymdrechion ehangach i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 ac i atal y risg o frigiadau yn y dyfodol.

**Maes Gwaith 2 – Sicrhau Llesiant a diogelwch staff**

**Cam Un: Llesiant a diogelwch staff**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Yn ystod mis Mawrth 2020, fe wnaeth yr Awdurdod newid i drefniadau a oedd yn golygu bod staff yn gweithio gartref gan gydymffurfio â rheoliadau'r Llywodraeth. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd staff yn wynebu amrywiaeth o heriau neu flaenoriaeth sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd yn ystod y cyfnod hwn gan ddiwynnu ar eu hamgylchiadau, a allai gynnwys gofal plant neu gefnogi perthnasau. Mewn rhai achosion efallai y bydd staff yn teimlo gorbryder neu arwahanrwydd yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Bydd yr Awdurdod yn cynnal ystod o weithgareddau i gefnogi iechyd a llesiant staff yn ystod y cyfnod hwn lle mae cartrefi cyflogeion wedi dod yn fan gweithio iddynt dros dro. Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol ar waith ar gyfer y nifer fach o staff sy'n cyflawni gwaith neu arolygiadau hanfodol ar safleoedd APCAP neu'n rhoi gofynion rheoleiddio mynediad ar waith yn ardal y Parc.

**Camau Blaenoriaeth**

**Cerrig Milltir**

**Ffyrdd o Weithio:** Gweithgareddau i gefnogi iechyd a llesiant staff yn ystod trefniadau gweithio gartref a chyfnod y cyfyngiadau ar symud.

- ✓ Rheolwyr llinell yn cysylltu'n rheolaidd â staff i wirio eu bod yn iawn.
- ✓ Cyfarfodydd adrannol rhithwir rheolaidd yn cael eu cynnal.
- ✓ Mentrau ehangach y tîm Adnoddau Dynol.
- ✓ Darparu canllawiau hanfodol ynghylch materion megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data wrth weithio gartref.

**Ffyrdd o Weithio:** Cynnal iechyd a diogelwch staff sy'n cyflawni gwaith neu arolygiadau hanfodol ar safleoedd APCAP neu'n rhoi gofynion rheoleiddio mynediad ar waith yn ardal y Parc.

- ✓ Gweithdrefnau iechyd a Diogelwch effeithiol ar waith.

**Cam Dau: Llesiant a Diogelwch Staff – Ymateb yn effeithiol i lacio'r rheoliadau gan gyflawni ymateb graddol yn ôl y gofyn.**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd angen i'r Awdurdod ymateb i newidiadau mewn rheoliadau sy'n effeithio ar weithleoedd. Bydd angen iddo ddefnyddio dull sydd wedi'i gynllunio, yn raddol ac yn cael ei reoli o ran staff ar draws gwahanol dimau'n dychwelyd at ddarparu gwasanaethau a chyflawni prosiectau o ddydd i ddydd o'u man gweithio arferol. Yn gysylltiedig â gwaith mewnol ehangach i baratoi cynlluniau adfer, bydd dull

graddol yr Awdurdod yn cael ei oleuo gan reoliadau'r Llywodraeth, canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, asesiadau risg, cynllunio ar gyfer senarios, dulliau wedi'u haddasu o fewn y gweithlu ac ystyriaethau iechyd penodol ar gyfer staff unigol. Un o'r meysydd ffocws a fydd yn cael blaenoriaeth fydd galluogi staff perthnasol, lle y bo'n briodol, i gyflawni'r rhaglen haf i wneud gwaith torri ar lwybrau arfordirol a hawliau tramwy mewndirol. Bydd angen i ddulliau ystyried newidiadau posibl a mesurau y bydd angen eu rhoi ar waith os ceir tonnau o'r feirws yn y dyfodol.

<b>Camau Gweithredu Graddol</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<p>Cynllunio a rheoli cyfleoedd graddol i staff ar draws gwahanol dimau ddychwelyd i'w man gweithio a'u dyletswyddau arferol (lle y bo'n bosibl ac yn amodol ar gyfyngiadau)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>⇒ Rheoli Cefn Gwlad (gan gynnwys gwaith torri a chynnal a chadw ar lwybrau arfordirol), Eiddo ac Ystadau</li> <li>⇒ Gwasanaethau Ymwelwyr a Chymunedol (Canolfannau, Darganfod a Pharcmyn)</li> <li>⇒ Cyfeiriad (Mynediad, Cadwraeth, Polisi Cynllunio, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Iechyd a Llesiant/ Twristiaeth, Archeoleg Gymunedol)</li> <li>⇒ Rheoli Datblygu</li> <li>⇒ Gwasanaethau Cymorth (Cyllid, Adnoddau Dynol, TG, Cyfathrebu, Codi Arian, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Perfformiad)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Asesiad Risg wedi'i gwblhau</li> <li>✓ Cynlluniau Wrth Gefn a chynllunio ar gyfer Senarios</li> <li>✓ Staff yn dychwelyd i'w man gwaith a'u dyletswyddau arferol (lle y bo'n bosibl ac yn amodol ar gyfyngiadau)</li> </ul>

**Canlyniad**

Mae staff yn cael eu cefnogi gydag effaith gadarnhaol ar eu llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu mesurau effeithiol sy'n sicrhau bod Iechyd a Diogelwch staff yn cael eu cynnal pan ydynt yn dychwelyd i'w man gweithio a'u dyletswyddau arferol. Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r ymdrech ehangach i gyfyngu ar ymlediad COVID-19 ac i atal y risg o frigiadau yn y dyfodol.

**Maes Gwaith 3 – Rhoi Arferion Gweithio Effeithiol ar Waith**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Yn ystod mis Mawrth 2020, fe wnaed gwaith sylweddol gan adran TG yr Awdurdod i ddarparu'r offer perthnasol a'r mynediad perthnasol at systemau i gynorthwyo staff i weithio gartref. Ochr yn ochr â hyn mae'r tîm TG wedi hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod rhithwir a llwyfannau negeseua i gynorthwyo gyda chyfathrebu i ategu trefniadau gweithio o bell. Bydd darparu cymorth a seilwaith TG effeithiol yn dal i fod yn hollbwysig yn ystod 2020/21. Mae gwaith yn y maes hwn yn debygol o gael effaith tymor hwy ar y modd y mae'r

Awdurdod yn gweithio. Yn arbennig, mae'r twf mewn defnyddio fideogynadleda a'r ffaith bod staff yn dod yn fwy cyfarwydd â'r dechnoleg yn cynnig y potensial i helpu'r Awdurdod i leihau ei allyriadau carbon o ganlyniad i deithio yn y tymor hwy.

Camau Blaenoriaeth	Cerrig Milltir
<p><b>Ffyrdd o Weithio:</b> Rheoli trefniadau gweithio gartref gan gynnwys staff, thimau a blaenoriaethau gwaith (yn unol â rheoliadau a chanllawiau'r Llywodraeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>⇒ Rheoli Cefn Gwlad, Eiddo ac Ystadau</li> <li>⇒ Gwasanaethau Ymwelwyr a Chymunedol (Canolfannau, Darganfod a Pharcmyr)</li> <li>⇒ Cyfeiriad (Mynediad, Cadwraeth, Polisi Cynllunio, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Iechyd a Llesiant/ Twristiaeth, Archeoleg Gymunedol)</li> <li>⇒ Rheoli Datblygu</li> <li>⇒ Gwasanaethau Cymorth (Cyllid, Adnoddau Dynol, TG, Cyfathrebu, Codi Arian, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Perfformiad)</li> <li>⇒ Tîm Arweinyddiaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Trefniadau effeithiol ar waith ar draws yr holl adrannau a thimau.</li> <li>✓ Mae cyfarfodydd adrannol rhithwir rheolaidd yn cael eu cynnal.</li> </ul>
<p><b>Ffyrdd o Weithio:</b> Rheoli seilwaith a chymorth TG.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Rhoi cymorth trwy Ddesg Gymorth TG.</li> <li>✓ Parhau i gynnal a chadw seilwaith a systemau TG hanfodol.</li> </ul>
<p><b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cyfathrebu Mewnol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cylchlythyr mewnol</li> <li>✓ Rheolwyr Llinell yn cadw mewn cysylltiad â Staff.</li> <li>✓ Staff a thimau'n ymgysylltu ac yn defnyddio'r system negeseua.</li> </ul>
<p><b>Canlyniad</b></p> <p>Mae staff yn glir ynglŷn â pha dasgau y mae angen iddynt eu cyflawni wrth weithio gartref ac maent yn ymwybodol beth sy'n digwydd ar lefel tîm a'r Awdurdod ehangach. Mae seilwaith a chymorth TG effeithiol yn dal i alluogi staff i weithio gartref ac yn hwyluso cyfleoedd cyfathrebu digidol.</p>	

## Maes Gwaith 4 – Rhoi help llaw, cefnogi Cyrff Cyhoeddus eraill a'n cymunedau

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â Chyrff Cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol yn ystod y flwyddyn i nodi sut y gallwn roi cymorth ychwanegol iddynt lle y bo'n briodol a helpu i gefnogi cymunedau yn y Parc a'r ardaloedd o'i

amgylch. Mae cymorth cychwynnol wedi cynnwys cynorthwyo PATCH i ddanfôn pecynnau ac mae nifer o aelodau o staff wedi cynnig eu help fel gwirfoddolwyr gydag asiantaethau lleol.

Camau Blaenoriaeth	Cerrig Milltir
<b>Strategol:</b> Rhoi cymorth ychwanegol i gyrrff Cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol lle y bo'n briodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Darparu gweithgareddau cymorth.</li> <li>✓ Trafod gyda chyrrff perthnasol sut y gall yr Awdurdod addasu ei waith i gefnogi sut y maent yn darparu gwasanaethau allweddol, e.e. addysg</li> </ul>

#### Canlyniad

Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at yr ymdrech ehangach i ymateb i COVID-19 ac yn helpu cymunedau yn y Parc a'r ardal o'i amgylch y mae arnynt angen cynhorthwy a chefnogaeth.

## Maes Gwaith 5 – Cynllunio ar gyfer Adferiad

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn datblygu cynllun adfer, a hwnnw wedi'i oleuo gan waith cynllunio ar gyfer senarios i ddatblygu ei ymateb seiliedig ar adferiad graddol i bandemig COVID-19 ac effeithiau cysylltiedig. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi adferiad mewnol yr Awdurdod ac adferiad ehangach y Parc, cymunedau, yr economi leol, ac adferiad ehangach seiliedig ar iechyd a llesiant a chyrchfan a hamdden cynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau adfer adrannol lle y bo angen.

Camau Blaenoriaeth	Cerrig Milltir
<b>Strategol:</b> Cynllun Adfer wedi'i ddatblygu ac yn ei le.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynllun adfer yn ei le ac yn cael ei roi ar waith.</li> <li>✓ Cynlluniau adfer adrannol yn eu lle, lle y bo angen.</li> </ul>
<p><b>Strategol:</b> Gweithio gyda Phartneriaid i ddatblygu ymatebion effeithiol i effaith pandemig COVID-19 ar</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>⇒ Reoli cyrchfan – gan gynnwys cysylltiadau ag ymwelwyr a chymunedau.</li> <li>⇒ Rheoli hamdden a mynediad at yr awyr agored.</li> <li>⇒ Archwilio sut y gallwn gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a'r economi leol.</li> <li>⇒ Datblygu prosiectau lechyd a Llesiant a phrosiectau â ffocws ar Gymunedau sy'n mynd i'r afael â'r effaith tymor hwy ar lesiant corfforol a meddyliol pobl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cyfarfodydd gyda phartneriaid a datblygu camau gweithredu ar y cyd.</li> <li>✓ Bwydo i mewn i gynlluniau adfer ehangach.</li> <li>✓ Prosiectau'n cael eu datblygu sy'n cysylltu â chynlluniau adfer.</li> </ul>

#### Canlyniad

Mae'r Awdurdod yn helpu i reoli a chefnogi adferiad gweithgareddau mewnol yr Awdurdod ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adferiad cyrchfan a hamdden ac

adferiad ehangach y Parc, yr economi leol, iechyd a llesiant a'r gymuned.

## Maes Gwaith 6 – Cyflawni ein cyfrifoldebau cynllunio statudol

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu ei wasanaeth cynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys rheoli ceisiadau, apeliadau a phenderfyniadau. Bydd hyn yn golygu dull addasol i ddechrau gyda staff ac Aelodau'n newid i ddulliau ar-lein o reoli ceisiadau a phwyllgorau. Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod wedi bod yn mynd trwy'r broses arolygu yn ystod 2019/20. Bydd mabwysiadu'r cynllun ochr yn ochr â rhaglen o ganllawiau cynllunio atodol yn dylanwadu ar gyfeiriad cynllunio yn y Parc yn y dyfodol. Bydd dangosyddion diwygiedig ar gyfer y Cynllun yn helpu'r Awdurdod i fonitro effeithiau yn erbyn yr amcan hwn ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.	
<b>Camau Blaenoriaeth</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gwasanaeth Cynllunio – Rheoli ceisiadau, apeliadau a phenderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae'r Awdurdod yn dal i allu darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol ar gyfer aelodau'r Cyhoedd.</li> <li>✓ Adolygu ac, os yw'n ofynnol, diweddarau'r Estyniad Dros Dro i'r Cynllun Dirprwyo</li> </ul>
<b>Strategol:</b> Mabwysiadu'r CDLI2.	✓ CDLI2 wedi'i fabwysiadu
<b>Strategol:</b> Mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Rhaglen o ganllawiau cynllunio atodol wedi'i chychwyn.</li> <li>✓ Mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol.</li> </ul>
<b>Canlyniad</b>	
Mae gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol yn dal i fod yn ei le, ac mae Cynllun Datblygu Lleol newydd gyda chanllawiau cynllunio atodol yn ei le gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio yn y Parc.	

## Maes Gwaith 7 – Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu effeithiol yn eu lle o ran gwneud penderfyniadau, atebolrwydd a chraffu. Mae newidiadau mewn rheoliadau'n golygu bod yr Awdurdod bellach yn gallu cynnal cyfarfodydd Pwyllgor rhithwir a bydd yn cefnogi Aelodau a Swyddogion wrth bontio i fformat newydd cyfarfodydd.	
<b>Camau Blaenoriaeth</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Llywodraethu:</b> Cynnal Cyfarfodydd Pwyllgor rhithwir a chynorthwyo'r Aelodau yn ystod y broses hon i gyflawni eu rôl.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnal cyfarfodydd yr APC, y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn effeithiol.</li> </ul>
<b>Governance:</b> Gwe-ddarlledu	✓ Systemau yn eu lle i'w gwneud yn

## Dull Graddol yn y Tymor Byr a Chanolig

cyfarfodydd rhithwir	bosibl gwe-ddarledu cyfarfodydd rhithwir.
<b>Llywodraethu:</b> Mae trefniadau dirprwyo perthnasol yn cael eu ceisio ac yn eu lle.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cymeradwyo trefniadau dirprwyo.</li> <li>✓ Trefniadau dirprwyo'n cael eu gweinyddu'n effeithiol.</li> </ul>
<b>Llywodraethu:</b> Cynnal cyfarfodydd Tîm Arwain a chyfarfodydd Tîm Ymateb mewn Argyfwng rhithwir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd.</li> <li>✓ Cyfarfodydd yn goleuo cynlluniau adfer.</li> </ul>
<b>Llywodraethu:</b> Y Gofrestr Risg yn cael ei diweddarau'n gyson a gwybodaeth amdani'n cael ei chyflwyno i Aelodau trwy Bwyllgorau perthnasol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Gwaith parhaus i fonitro'r gofrestr risg gan staff ac Aelodau.</li> </ul>
<b>Canlyniad</b>	
Mae Aelodau'n parhau i allu gwneud penderfyniadau ac mae mecanweithiau atebolrwydd a chraffu'n dal i fod yn eu lle.	

## Maes Gwaith 8 – Cyflawni ein rhwymedigaethau ariannol

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
<p>Un ffordd y gall yr Awdurdod helpu i gefnogi cyflenwyr lleol a'r economi ehangach yw trwy barhau i brosesu a thalu anfonebau ar amser. Mae gan yr Awdurdod ystod o brosiectau a ariennir gan gyrrff allanol, a bydd yn parhau i gyfathrebu gyda'i arianwyr ynghylch yr effaith y mae COVID-19 a rheoliadau'n ei chael ar gyrraedd cerrig milltir a chyflawni proffiliau cyllidebau prosiectau. Mae rheoliadau COVID-19 wedi effeithio ar nifer o weithgareddau creu incwm a gyflawnir gan yr Awdurdod a bydd effaith economaidd ehangach pandemig COVID-19 ar yr economi'n effeithio ar yr hinsawdd ariannol tymor hwy. Bydd effeithiau a mapio ariannol yn cael eu hystyried fel rhan o gynlluniau adfer mewnol.</p>	
<b>Camau Blaenoriaeth</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Prosesu anfonebau a monitro a chyflawni contractau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae cyflenwyr yn cael tâl ar amser.</li> <li>✓ Mae contractau'n cael eu cyflawni.</li> <li>✓ Gweithredu'r Gyflogres yn llwyddiannus.</li> </ul>
<b>Prosiectau:</b> Cyfathrebu gydag Arianwyr ar gyfer Prosiectau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae proffiliau cyllidebau a graddfeydd amser ar gyfer prosiectau wedi cael eu hadolygu a'u hestyn lle y bo'n ofynnol.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Monitro a mapio effaith ariannol ar wasanaethau a gweithrediadau yn y dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae goblygiadau a monitro ariannol wedi goleuo cynlluniau adfer.</li> </ul>
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod yn dal i dalu i gyflenwyr a staff ar amser. Mae cynlluniau adfer yr Awdurdod yn rhoi sylw i ystyriaethau ariannol.	

## Maes Gwaith 9 – Gweithgareddau sy'n ategu amcanion hirdymor yr Awdurdod a monitro effeithiau ar ein gwasanaethau a'n prosiectau

**Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Eir i'r afael â'r maes gwaith hwn trwy ail adran y cynllun. Bydd rhai camau gweithredu i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau, a chyflawni prosiectau a gweithgareddau a restrir yn Adran 2 yn mynd rhagddynt yn ystod y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, i weithgareddau yr effeithir arnynt gan reoliadau COVID-19, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion fel rhan o'u cyflawni, bydd y cynnydd yn gyfyngedig nes bod cyfyngiadau'n cael eu codi'n rhannol neu'n llawn. Mewn rhai achosion bydd hyn yn golygu efallai na fydd gweithgareddau dan rai ffrydiau gwaith yn cael eu cyflawni yn ystod 2020/21.

**Canlyniad**

Mae'r Awdurdod yn dal i wneud cynnydd lle y bo'n bosibl yn erbyn ei Amcanion Llesiant ac yn cyfrannu at Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.



## Adran 2: Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

### Gwneud gwahaniaeth yn y tymor hir

Mae gan bob un o Amcanion Llesiant yr Awdurdod ffrydiau gwaith sy'n cyfarwyddo'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni i gyflawni'r amcan. Mae camau gweithredu dan ffrydiau gwaith a oedd yn yr arfaeth yn wreiddiol ar gyfer 2020/21 mewn llawer o feysydd yn dal i fod yn berthnasol i gyflawni Amcanion Llesiant ehangach yr Awdurdod a'i effeithiau yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y tymor hir.

Fodd bynnag, er y gellir bwrw ymlaen â rhai gweithgareddau mewn ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21, efallai na fydd nifer ohonynt gan gynnwys y rhai sy'n golygu cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion yn gallu mynd rhagddynt nes bod cyfyngiadau wedi'u codi'n rhannol neu'n llawn. Mewn rhai achosion bydd hyn yn golygu efallai na fydd gweithgareddau dan rai ffrydiau gwaith yn gallu cael eu cyflawni yn ystod 2020/21. Bydd gweithgareddau dan ffrydiau gwaith yn cael eu hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn i asesu a ydynt yn dal i fod yn berthnasol nteu a oes angen eu diweddarau i fod yn gyson â chynlluniau adfer.

<b>Amcanion Llesiant APCAP a Ffrydiau gwaith</b>	
<b>Amcan Llesiant Llewyrchus:</b> Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Polisiâu Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio	Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaedd Newydd
Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth	Cefnogi Busnesau Lleol
Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo	Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro
<b>Amcan Llesiant Cydnerth:</b> Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth	Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd
Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu	Cynllunio: RHA NG ac ymateb i golli bioamrywiaeth
Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd	Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth
Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc	
<b>Amcan Llesiant Iechyd a Lles:</b> Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Cyfleodd Cerdded â Chymorth	Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored
Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc	Cynllunio: Tai Fforddiadwy
Mentrau a Phrosiectau Iechyd a Lles	Lles y Gweithlu
<b>Amcan Llesiant Cydraddoldeb:</b> Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Cydraddoldeb Strategol: Ein Gweithlu	Cydraddoldeb Strategol: Ein Gwasanaethau
Tirweddau i Bawb: Cynhwysiant Cymdeithasol	Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol
Ymgysylltu: Allgymorth, pobl ifanc a gwirfoddolwyr	
<b>Amcan Llesiant Cymunedol:</b> Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Ymgysylltu: Sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl
Gwasanaeth Cynllunio: Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned	Cronfa Datblygu Cynaliadwy
<b>Amcan Llesiant Diwylliant:</b> Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes	Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf
Yr Amgylchedd Hanesyddol : Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol	Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth
Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio	
<b>Amcan Llesiant Byd-eang:</b> Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	
<b>Ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn</b>	
Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd	Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu
<b>Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Datblygiad a Gwydnwch y Gweithlu</b>	
Cynllunio Tymor Hir a Blaenoriaethu Prosiectau	Codi Arian a Chreu Incwm
Datblygu'r Gweithlu	Gwella'r Modd yr ydym yn Gweithio - Dulliau Digidol
Iechyd a Diogelwch	
Datblygu'r Aelodau	Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol

Er mwyn cynorthwyo i integreiddio cyflawni Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol â Chynllunio Corfforaethol, mae'r Awdurdod wedi clustnodi 3 maes effaith allweddol y bydd ffrydiau gwaith sy'n cyflawni yn erbyn ei amcanion llesiant hefyd yn cyfrannu iddynt yn ystod 2020/21. Mae'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn heriau byd-eang cydgysylltiedig ac mae'r Awdurdod, gan ddefnyddio'i brofiad blaenorol, ei uchelgais cyfredol a sgiliau a gwybodaeth ei staff, mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn. 2020 yw 50fed pen-blwydd Llwybr yr Arfordir; fe wnaeth cyflawni'r gamp hon agor cyfleoedd i ragor o bobl brofi Tirwedd y Parc. Gan edrych tua'r dyfodol gall yr Awdurdod gael effaith gadarnhaol o ran mynd ati ymhellach i ddatblygu cyfleoedd eraill yn y Parc sy'n helpu rhagor o bobl i gael mynediad at ei Nodweddion Arbennig a chael budd o'r rhain ac effeithiau cysylltiedig ar iechyd a llesiant.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Ymateb i Newid Hinsawdd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.</li><li>• Gwarchod a gwella priddoedd a hyrwyddo storio carbon naturiol.</li></ul>
<b>Ymateb i Gollu Bioamrywiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwarchod a gwella priddoedd a hyrwyddo storio carbon naturiol.</li></ul>
<b>Tirweddau i Bawb</b>	<p>Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyno hamdden a dysgu / chwarae egnïol yn yr awyr agored, yn seiliedig ar yr amgylchedd, treftadaeth a'r celfyddydau</li></ul>

### Monitro Effaith a Pherfformiad

Lle y bo'n ddichonadwy bydd yr Awdurdod yn dal i gasglu data a gwybodaeth am berfformiad ar draws meysydd gwasanaeth. Bydd hyn yn ei alluogi i asesu'r effaith y mae COVID-19 a rheoliadau cysylltiedig wedi'i chael ar ei wasanaethau a hefyd i oleuo cynlluniau adfer a'r broses o'u rhoi ar waith.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Llewyrch yn y Tymor Hir

Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.



Café Môr yn Freshwater West

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

Ffrwd Waith 1 – Polisiau Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu ac yn gweithredu Cynllun Datblygu Lleol newydd a chanllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar gyfeiriad cynllunio yn y Parc yn y dyfodol. Bydd dangosyddion diwygiedig ar gyfer y Cynllun yn helpu'r Awdurdod i fonitro effeithiau yn erbyn yr amcan hwn ac effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynllunio effeithiol sydd o gymorth i ddatblygu busnesau, cymunedau ac economi leol sy'n gynaliadwy.	
Bydd camau gweithredu i helpu i gefnogi'r ffrwd waith hon yn cael eu cyflawni trwy ein maes gwaith tymor byr a chanolig ar ddarparu ein gwasanaeth cynllunio statudol.	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol required [Targed 82%]	
Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn diwrnodau [Targed <67 days]	
% y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion (argymhelliad) [Targed <5%]	
% yr apeliadau a wrthodwyd [Targed >66%]	
Ceisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd [Targed 0]	
% y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig	
# ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd	
% y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd	
Data Arall: Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio. Dangosyddion Cynllun Datblygu Lleol.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol yn ei le, sy'n cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ac yn mynd y tu hwnt iddynt ac yn ategu polisi cynllunio ar gyfer Cymru a'r ardal leol sy'n cyfrannu at economi a chymunedau lleol cynaliadwy.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Polisi a phenderfyniadau cynllunio sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at yr agendau ddatgarboneiddio yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Polisi a phenderfyniadau cynllunio nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth yn y Parc.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Polisi cynllunio sy'n cefnogi economi a chymunedau cynaliadwy a hyfyw yn y Parc.

## Ffrwd Waith 2 – Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
<p>Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnal a chadw Llwybr Arfordir a rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) Penfro fel bod rheoliadau mynediad sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael eu llacio a'r llwybrau'n dal i fod yn ased twristiaeth a hamdden allweddol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, cymunedau a'r economi dwristiaeth leol. Byddwn yn cynnal gweithgareddau i ymateb i effaith erydu arfordirol a chylchoedd tywydd gwael ar lwybrau. Trwy'r Prosiect Parc Digidol byddwn yn parhau i wella ein rheolaeth weithredol ar lwybr yr arfordir trwy ddigideiddio a symleiddio swyddogaethau cefn swyddfa.</p> <p>Bydd angen cyflawni gweithgareddau trwy ddull graddol yn unol â rheoliadau COVID-19, gyda gweithgareddau ar reoliadau mynediad a gwaith torri ar lwybrau'r arfordir a nodir yn y meysydd gwaith graddol yn y tymor byr a chanolig yn cael blaenoriaeth</p>	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Prosiect y Parc Digidol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Digideiddio trefniadau adrodd a gweithdrefnau ymhellach, gan gynnwys gweithdrefnau tywydd a graddio llwybrau troed yn seiliedig ar ddefnydd.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Datblygu cysylltiadau llwybrau troed newydd a chreu teithiau cylchol newydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnydd wedi'i wneud ar y cyswllt llwybrau troed newydd rhwng Trefdraeth a Nanhyfer, Llwybr Pwll Cornell.</li> <li>✓ Gwella'r llwybr troed cyhoeddus yn Nhrewyddel i greu taith gylchol o Landudoch trwy Drewyddel a Thraeth Poppit.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Cynyddu cydnerthedd rhag difrod gan stormydd y gaeaf.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Sefydlogi ac ailraddio'r cymer wrth y traeth yn Aberfforest.</li> <li>✓ Mynd ati mewn modd rhagweithiol i ailalinio Llwybr yr Arfordir ym Mhenmaen Dewi i'w wneud yn fwy cydnerth rhag erydiad arfordirol a gwarchod parhad y llwybr.</li> </ul>
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Fforwm Mynediad Lleol.	
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Cyfranogi yn y Fforwm Deddfwriaeth Mynediad	
<b>Mesurau – Aseu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Llwybr Arfordir Sir Benfro – Sgôr Gyffredinol Trip Advisor 1-5	
% yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd	
# y bobl sy'n defnyddio llwybrau troed (o rifyddion sefydlog)	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Canlyniad	
Lefel uchel o fodlonrwydd defnyddwyr ar Lwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy mewndirol sy'n annog ymwelwyr i ddychwelyd. Mae llwybrau'n cael eu cadw ar agor ac mae mwy o bobl yn gallu cael mynediad at lwybrau cylchol a'u mwynhau.	
Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cefnogi cyfleoedd teithio llesol yn y Llwybr. Gwarchod Llwybr yr Arfordir rhag effaith difrod gan stormydd gaeaf.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn gallu mwynhau a chael mynediad at lwybrau cylchol yn y Parc. Mae Llwybr yr Arfordir ar agor ac yn hygyrch i bobl ei ddefnyddio.

### Ffrwd Waith 3 – Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo

Beth fyddwn ni'n ei wneud	
Bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag eraill i ddefnyddio dull strategol a chynaliadwy o hyrwyddo a rheoli'r Parc. Byddwn yn alinio ein gweithgareddau â Strategaeth Croeso i Gymru Croeso Cymru, y Cynllun Rheoli Cyrchfan 2020-2025 a chynlluniau adfer sy'n gysylltiedig â COVID-19. Byddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n helpu i hwyhau'r tymor ymwelwyr traddodiadol ac yn hyrwyddo gweithgareddau twristiaeth gynaliadwy. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar reoli lleoliadau poblogaidd iawn yn y Parc ac ar reoli hamdden, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a diogelwch.	
Bydd angen cyflawni gweithgareddau gan ddefnyddio dull graddol yn unol â rheoliadau COVID-19, gyda gweithgareddau ar reoliadau mynediad a rheoli hamdden a chynlluniau adfer a nodir mewn meysydd gwaith yn y tymor byr a chanolig yn cael blaenoriaeth	
Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect:</b> Ymchwil Allanol i Ddigwyddiadau Cynaliadwy. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Ymchwil wedi'i chwblhau gan Brifysgol Abertawe.</li> <li>✓ Model wedi'i argymhell ar gyfer ei ddefnyddio.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Brandio APCAP.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Deunydd marchnata APCAP wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu brandio diwygiedig.</li> </ul>
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Cefnogi'r broses o roi'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ar waith a sefydlu sefydliad cyflawni.	
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Dogfen Rheoli'r Hyn a Allwn – Adolygiad blynyddol gyda Phartneriaid. (A6)	
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro a mapio digwyddiadau arfordirol ac ar y blaendraeth.	
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Cyswllt â grwpiau hamdden a Fforwm Arfordir Sir Benfro. (A6)	
Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad	
# yr ymholiadau ynghylch ffilmio a # # trwyddedau ffilmio a ganiatawyd	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
Canlyniad	

Mae economi ymwelwyr a hamdden gynaliadwy yn y Parc yn cael eu hyrwyddo mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar nodweddion arbennig y Parc, profiad ymwelwyr, yr economi leol a chymunedau.

**Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae'r economi ymwelwyr yn y Parc yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n ategu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a'r agenda ddatgarboneiddio gysylltiedig.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae'r economi ymwelwyr yn y Parc yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n cefnogi bioamrywiaeth.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn gallu cael budd o gael mynediad at nodweddion arbennig y parc chael profiad ohonynt, gan hefyd sicrhau bod ansawdd profiad ymwelwyr yn cael ei gynnal.

**Ffrwd Waith 4 – Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon. Bydd hyn yn cynnwys parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn ystod misoedd yr haf yn y dyfodol trwy ei barcmyn tymhorol ar gyfer yr haf, yn enwedig trwy ymgysylltu â digwyddiadau dros dro ar y traethau, darparu sesiynau Golwg ar y Parc a mynd ati ymhellach i ddatblygu ei weithgareddau sy'n cynorthwyo busnesau lleol i ennyn ymgysylltiad ymwelwyr â'r Parc a'i nodweddion arbennig. Yn unol â strategaeth ddehongli'r Awdurdod ar gyfer y Parc byddwn yn diweddarau'r byrddau dehongli yn Oriel y Parc ac yn ailbennu safle'r ganolfan fel canolfan ddarganfod ar gyfer y Parc, gan olygu mai'r ganolfan fydd y cyrchfan porth i gael rhagor o wybodaeth am y Parc. Bydd yr Awdurdod hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu mannau darganfod mewn lleoliadau eraill yn y Parc. Bydd gwefan newydd yr Awdurdod o gymorth i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Yn y tymor canolig a byr mae gweithgareddau sydd o gymorth i ddatblygu deunyddiau ar gyfer Golwg ar y Parc, byrddau dehongli yn Oriel y Parc a Mannau Darganfod yn mynd rhagddynt yn barhaus.

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Prosiect:</b> Ailbennu safle Oriel Y Parc fel Canolfan Ddarganfod ar gyfer y Parc.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae Cynllun Dehongli yn ei le.</li> <li>✓ Diweddarau rhai o'r byrddau dehongli ar y safle.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gweithgareddau i gefnogi'r broses o roi'r cynllun busnes ar waith yn Oriel Y Parc.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yng nghynllun busnes Oriel y Parc</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Datblygu Mannau Darganfod ledled y Parc.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Darparu mannau darganfod peilot.</li> </ul>
<b>Prosiect partneriaeth:</b> Llwybrau Celtaidd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Hyfforddi staff yn	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae staff perthnasol wedi cael</li> </ul>

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

system rheoli cynnwys a system bwcio digwyddiadau'r wefan newydd.	hyfforddiant ar y system rheoli cynnwys.
<b>Datblygu Prosiect:</b> Sioe Deithiol ar draethau'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Parcmyn Haf.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnig ar gyfer prosiect wedi'i ddatblygu.</li> <li>✓ Cyllid wedi'i sicrhau.</li> </ul>
<b>Datblygu Prosiect:</b> Gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cynorthwyo busnesau lleol i ennyn ymgysylltiad ymwelwyr â'r Parc a'i nodweddion arbennig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Adolygiad o adnoddau.</li> <li>✓ Cynnig ar gyfer prosiect wedi'i ddatblygu.</li> <li>✓ Gweithgareddau ymgysylltu wedi'i cyflawni.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# Prif ddefnyddwyr y wefan a # Prif dudalennau'r agored wefan yr edrychwyd arnynt	
Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Oriel y Parc	
# yr ymwelwyr i Oriel Y Parc	
# yn mynychu digwyddiadau pop yp	
# pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau busnes a'u rhwydweithio â'r cyhoedd yn gyffredinol y Parcmyn Haf	
# Sesiynau hyfforddiant Golwg ar y Parc (Parkwise) a gynhaliwyd	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth	
<b>Canlyniad</b>	
Mae cynulleidfaoedd newydd yn ymwybodol o gyfleoedd yn y Parc a sut i gael profiad o'i nodweddion arbennig a gwneud y gorau ohonynt.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae mwy o bobl yn dysgu am effaith y newid yn yr hinsawdd yn y Parc a beth ellir ei wneud ac sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hynny.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae mwy o bobl yn dysgu am golli bioamrywiaeth yn y Parc, a beth ellir ei wneud ac sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hynny.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae cynulleidfaoedd newydd yn ymwybodol o gyfleoedd yn y Parc a sut i gael profiad o'i nodweddion arbennig a gwneud y gorau ohonynt.

## Ffrwd Waith 5 – Cefnogi Busnesau Lleol

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr effaith y mae pandemig cyfredol COVID-19 a rheoliadau cysylltiedig wedi'i chael ar fusnesau lleol a'r economi leol. Un ffordd o gefnogi busnesau yw sicrhau ein bod yn dal i dalu anfonebau'n brydlon a chwilio am gyfleoedd i gefnogi cyflenwyr lleol. Mae'r Awdurdod yn annhebygol o allu cynnal cyfleoedd i stondinwyr yn ei ganolfannau mewn digwyddiadau yn y tymor byr ond bydd yn chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo busnesau lleol a chyflenwyr bwyd yn rhithwir trwy ei sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn y tymor hwy byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer stondinau mewn ffeiriau ac i artistiaid werthu eu gwaith a hefyd yn stocio cynnyrch lleol a Chymreig mewn canolfannau i helpu i gefnogi busnesau lleol. Trwy adolygu ei brosesau caffael bydd yr Awdurdod yn ystyried sut y gall helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol,



## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

hybu cynaliadwyedd a defnyddio cyfleoedd ar gyfer budd i'r gymuned. Mae'r [diogelwr taith Cymru Lewyrchus](#) gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlygu cyfleoedd i ddefnyddio caffael i roi anogaeth ar gyfer twf cynhwysol.

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Cyfathrebu:</b> Mynd ati mewn ffordd rithwir i hyrwyddo standinwyr a busnesau lleol a chyflenwyr bwyd eraill, gan gynnwys y rhai a oedd i fod yn y Sioe Fwyd Hynod Wyllt yn OYP.	✓ Mynd ati mewn ffordd rithwir i hyrwyddo busnesau a chyflenwyr bwyd lleol.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Adolygiad o gaffael yn yr Awdurdod, gan gynnwys opsiynau budd i'r gymuned ac arferion cynaliadwyedd. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cwmpas y prosiect wedi'i bennu a'r prosiect wedi'i ddatblygu.</li> <li>✓ Cyllid wedi'i sicrhau.</li> <li>✓ Adolygiad wedi'i gynnal.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% Gwariant Awdurdod yn lleol	
% yr anfonebau a dalwyd ar amser (Cyfartaledd)	
# o standinwyr sy'n cymryd rhan mewn ffeiriau a digwyddiadau yn Oriel y Parc a Chaeriw	
# o artistiaid a chrefftwyr a gefnogir yn Oriel y Parc	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth	
<b>Canlyniad</b>	
Mae busnesau lleol yn cael eu cefnogi trwy gyfleoedd yn ein canolfannau a thrwy arferion caffael cynaliadwy. Mae arferion caffael yn cael effeithiau cymunedol ac amgylcheddol cadarnhaol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Lleihau allyriadau uniongyrchol yn ardal y Parc trwy arferion caffael.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae arferion caffael yn cael effeithiau amgylcheddol cadarnhaol.

## Ffrwd Waith 6 – Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
<p>Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â Choleg Sir Benfro a chynllun lleoliadau Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o ddatblygu Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gynorthwyo pobl i gael gwaith yn Sir Benfro. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn parhau i ystyried sut y gallwn ddatblygu sgiliau a chyfleoedd yn yr Awdurdod. Byddwn yn gwneud hyn trwy ehangu natur ein cyfleoedd gwirfoddoli a chynnal astudiaeth ddichonoldeb i oleuo datblygiad prosiect newydd ar gyfer ein prosiect sgiliau ar waith llwyddiannus blaenorol.</p> <p>Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.</p>	
Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Cynllun	✓ Datblygu ystod o gyfleoedd ar gyfer

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Lleoliadau Gwaith Coleg Sir Benfro.	lleoliadau gwaith ar draws yr Awdurdod. ✓ Cwblhau lleoliadau gwaith.
<b>Datblygu Prosiect:</b> Astudiaeth ddichonoldeb i oleuo prosiect newydd ar gyfer Sgiliau ar Waith gan gynnwys adnabod cyfleoedd posibl ar gyfer Prentisiaethau.	✓ Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gwella ein cyfleoedd gwirfoddoli – cyfleoedd hyblyg a chyfleoedd mewn swyddfeydd a chanolfannau.	✓ Ystod o opsiynau gwirfoddoli hyblyg yn eu lle. ✓ Ystod o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael ar draws canolfannau ac yn Llanion.
<b>Mesurau – Aseu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y lleoliadau profiad gwaith a ddarparwyd (Mesur Diwygiedig)	
# Diwrnodau gwirfoddolwyr mewn Swyddfeydd a Chanolfannau	
# yn mynychu diwrnodau astudio gwirfoddolwyr	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae pobl yn datblygu sgiliau gwaith a sgiliau gyrfa i'w cynorthwyo gyda chyfleoedd cyflogaeth ac addysgol yn y dyfodol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Ehangu mynediad at gyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau sy'n cefnogi'r Parc Cenedlaethol.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Cydnerthedd yn y Tymor Hir

Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.



Gweirglodd Shrinkle Haven

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

### Ffrwd Waith 1 – Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyflawni a datblygu gweithgareddau Rheoli Tir yr Awdurdod trwy weithio mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr preifat gyda'n cynllun 'Gwarchod y Parc' a'n gweithgareddau ar yr ystâd yr ydym yn berchen arni neu'n ei phrydlesu. Trwy'r gwaith hwn, mae gwaith cadwraeth yn cael ei wneud ar dros gant o safleoedd, cyfanswm o oddeutu 4,323 hectar (7% o'r Parc Cenedlaethol), sydd wedi'i fwriadu i fod o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth yn y Parc. Mae'r Awdurdod wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i'r cynllun trwy benodi Swyddog Cadwraeth ychwanegol i gynyddu capasiti o fewn y cynllun. Mae'r diwydiant llaeth a ffermwyr yn rhanddeiliaid allweddol yn y Parc Cenedlaethol a bydd yr Awdurdod yn gwneud mwy i ymgysylltu â'r sector hwn.

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ymgysylltu:</b> Gweithgarwch ymgysylltu â'r Diwydiant Llaeth/Ffermwyr. (A6)	✓ Cysylltiadau wedi'u creu. ✓ Pennu cwmpas prosiect posibl.
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Ymgysylltu â Phrosiect Gweirgloddiau Gwych Plant Life. (A6)	✓ Parhau i ymwneud â'r prosiect.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Safleoedd Cadwraeth - % yn unol â'r Cynllun Rheoli (A6)	
Hectarau – Gwaith cadwraeth yn cael ei wneud er budd rhywogaethau blaenoriaeth (A6)	
Hectarau - eiddo y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen arno neu'n ei brydlesu a reolir ar gyfer bioamrywiaeth (A6)	
Hectarau - tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat (A6)	
Hectarau – Tir mynediad lle mae'r APC yn cefnogi partneriaethau rheoli cyffredi (A6)	
Hectarau – rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu (A6)	
Hectarau – Cynefin peillio newydd gafodd ei greu (A6)	
Data Arall: Adroddiad ar Reoli Tir Cadwraeth a'r Amgylchedd Hanesyddol (Wedi'i Gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol). Treialu Mapiau Effaith. (A6)	
<b>Canlyniad</b>	
Adfer gweirgloddiau, glaswelltir corsiog a nodweddion cysylltedd (perthi, cloddiau, coridorau nentydd) a chreu ardaloedd newydd o gynefinoedd, gan gynnwys glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau, cynefinoedd a choed pori.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Rhoi cymorth i wella carbon a gaiff ei storio mewn pridd a chynefin lled-naturiol.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Cefnogi bioamrywiaeth mewn ecosystemau yn y Parc.

## Ffrwd Waith 2 – Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
Bydd yr Awdurdod yn cyflawni'r Prosiect Peilot Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr sydd wedi'i fwriadu i wella'r ffordd y caiff Llwybr yr Arfordir ei reoli trwy osod mwy o bwyslais ar gynnal a chadw'r fioamrywiaeth gynyddol a chysylltedd. Mae'r prosiect peilot yn cael ei chyflawni gan Warden Peillwyr ac yn canolbwyntio ar wella'r fioamrywiaeth ar hyd y rhan o Lwybr Arfordir Penfro sy'n mynd o Niwngwl i Abereiddi. Bydd canlyniad y prosiect hwn yn sail i'r modd y rheolir Llwybr yr Arfordir yn y dyfodol o ran cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd. Bydd prosiect peilot Ffiniau Traddodiadol yr Awdurdod o fewn Gwarchod y Parc yn treialu cymorth i reolwyr tir i reoli ffiniau yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt. Mae arolwg o Ffiniau Traddodiadol yn cael ei gomisiynu i oleuo'r gwaith hwn. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â cholli'r nodweddion hyn sy'n darparu lloches i fywyd gwylt, ffynhonnell bwyd, ardal fridio a nodwedd cysylltedd o'r dirwedd.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

<b>Camau Gweithredu</b>		<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Prosiect Peilot:</b> Prosiect Llwybrau, Planhigion a Phryfed Peillio. (A6)		✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.
<b>Prosiect Peilot:</b> Prosiect Ffiniau 9 Traddodiadol. (A6)		✓ Cynllun grant wedi'i dreialu
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>		
Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Gwerthusiadau prosiect. Treialu Mapiau Effaith. (A6)		
<b>Canlyniad</b>		
Mae bioamrywiaeth a chysylltedd wedi gwella yn y Parc, ac mae canfyddiadau o brosiectau peilot yn goleuo ffordd o weithio yn yr Awdurdod yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cynyddu effaith yn y meysydd hyn i'r eithaf.		
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>		
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Supporting nature based solutions that enhance carbon stores in the Park.	
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Cefnogi datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storfeydd carbon yn y Parc.	

## Ffrwd Waith 3 – Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd yr Awdurdod yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol a fydd yn cynorthwyo pobl i gymryd camau gweithredu sy'n gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. Mae prosiectau a chynlluniau megis y Wardeniaid Gwirfoddol, Parcmy'n Ieuencid, Llwybrau a Pwyth mewn Pryd wedi helpu i hwyluso'r cyfleoedd hyn. Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd wedi sicrhau cyllid Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW) a fydd yn ei alluogi i barhau â'i waith gyda chymunedau yng Nghwm Gwaun a chymunedau mewn dalgyloedd eraill i reoli rhywogaethau goresgynnol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i geisio cyllid ar gyfer prosiect Cysylltiadau Naturiol cam dau i gynorthwyo busnesau twristiaeth lleol gyda gwaith cadwraeth.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon

<b>Camau Gweithredu</b>		<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Prosiect:</b> Prosiect Pwyth Mewn Pryd. (A6)		✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.
<b>Datblygu Prosiect:</b> Prosiect Cysylltiadau Naturiol. (A6)		✓ Sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>		

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

# diwrnodau gwirfoddolwyr - gwaith cadwraeth (A6)	
# diwrnodau gwirfoddolwyr – a dreuliwyd yn gwneud gwaith ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol (A6)	
# diwrnodau gweithredu cymdeithasol – gwaith cadwraeth (A6)	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Gwerthusiadau prosiect. Treialu Mapiau Effaith.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae gwirfoddolwyr, busnesau a sefydliadau a chymunedau lleol yn helpu i wella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol .	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae pobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storffeydd carbon yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae pobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi bioamrywiaeth mewn ecosystemau yn y Parc.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae ystod eang o bobl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd i helpu i ofalu am y Parc.

## Ffrwd Waith 4 – Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at rwydweithiau partneriaeth ac yn eu cynorthwyo i gyflawni cynlluniau gweithredu sy'n ategu Cynllun Adfer Natur Sir Benfro. Mae hyn yn cynnwys Partneriaeth Natur Leol Sir Benfro, Grŵp Tanau Gwylt Sir Benfro, Rhwydwaith Pori Sir Benfro a Fforwm Arfordirol Sir Benfro. Bydd cyfarfodydd rhithwir ar gyfer grwpiau perthnasol lle maent ar gael yn galluogi'r Awdurdod i barhau i gyfrannu at y partneriaethau hyn ac ymgysylltu â hwy yn y tymor byr a chanolig. Bydd yr Awdurdod yn parhau i adnabod a chyfranogi mewn cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisïau ar lefel y DU a Chymru ar reoli tir yn dilyn ymadael â'r UE.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Cyfrannu at gyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi y DU a Chymru ar Reoli Tir yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd (A6)	
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Cyfranogi ym Mhartneriaeth Natur Sir Benfro a chyflawni Cynllun Adfer Natur Sir Benfro. (A6)	
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Cyfranogi yn Rhwydwaith Pori Sir Benfro a Grŵp Tanau Gwylt Sir Benfro. (A6)	
<b>Canlyniad</b>	
Mae dull partneriaeth yn ei le ac mae mentrau ar y cyd yn cael eu cyflawni i gynorthwyo cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid i wella ecosystemau a chysylltedd yn y Parc a chyflawni ar flaenoriaethau yng Nghynllun Adfer Natur Sir Benfro. Mae buddiannau'r Parc, yr Awdurdod a'i rhanddeiliaid yn cael eu hystyried gan wneuthurwyr polisi ar lefel Cymru a'r DU.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae cydweithio o gymorth i gyflawni datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storffeydd carbon yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae cydweithio o gymorth i gyflawni gweithgareddau sy'n arwain at fioamrywiaeth well mewn ecosystemau a

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

	chysylltedd gwell yn y Parc.
--	------------------------------

### Ffrwd Waith 5 – Cynllunio: RHA NG ac ymateb i golli bioamrywiaeth

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Trwy Adroddiad Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro effeithiolrwydd polisi cynllunio i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu datblygu'n gynaliadwy a bod nodweddion arbennig y Parc yn cael eu gwarchod a'u gwella trwy'r dangosyddion yn CDLI2 unwaith y byddant wedi cael eu mabwysiadu. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio defnyddio'r ddyletswydd A6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2018 mewn perthynas â gosod amodau gwella ar geisiadau cynllunio.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Dyletswydd A6 – Amodau Gwella Bioamrywiaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio (A6)	✓ Amodau gwella'n cael eu gosod ar geisiadau cynllunio
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Ecolegydd Cynllunio ar y cyd Cyngor Sir Penfro ac APCAP. (A6)	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Dangosydd Blynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Nodweddion Arbennig.	
<b>Canlyniad</b>	
Hybu'r arfer o reoli adnodau naturiol yn gynaliadwy a gwarchod a gwella Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae amodau gwella bioamrywiaeth ar geisiadau cynllunio o gymorth i gyflawni datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storffeydd carbon yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae amodau gwella bioamrywiaeth o gymorth i wella bioamrywiaeth mewn ecosystemau yn y Parc. Mae polisi cynllunio'n helpu i atal datblygiadau sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth yn y Parc.

### Ffrwd Waith 6 – Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu gwasanaethau coed a warchodir, yn ymateb i glefyd coed ynn yn y Parc Cenedlaethol ac yn cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â choed.	
Effeithir ar rai gweithgareddau sy'n cefnogi'r ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau ar draws y ffrwd waith hon.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Ymateb i Glefyd Coed Ynn yn Ardal y Parc. (A6)	✓ Gwaith monitro ac ymateb parhaus yn mynd rhagddo.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

# y ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch (A6)	
# y gorchmynion diogelu coed newydd a waned (A6)	
# y diwrnodau gwirfoddolwyr – cyfrannu at blannu coed (A6)	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae coed a choetiroedd a warchodir yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cyfrannu at storfeydd carbon yn y Parc trwy ofalu am goed yn y dirwedd a chynyddu eu nifer.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Cefnogi bioamrywiaeth a chysylltedd gwell yn y Parc trwy ofalu am goed yn y dirwedd a chynyddu eu nifer.

## Ffrwd Waith 7 – Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
<p>Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid strategol, ymwelwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau i gyflawni camau gweithredu sy'n helpu i warchod amgylchedd y môr a'r blaendraeth a hwyluso'i ddefnydd ar gyfer gwella storfeydd carbon. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio gydag eraill yn y maes hwn trwy ymgysylltu â'r Grwpiau Awdurdod Perthnasol ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion a Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Bydd cyfarfodydd rhithwir ar gyfer grwpiau perthnasol lle bo hynny ar gael yn galluogi'r Awdurdod i barhau i gyfrannu at y partneriaethau hyn ac ymgysylltu â hwy. Bydd yr Awdurdod yn ceisio archwilio cyfleoedd trwy'r partneriaethau hyn sydd wedi hen ennill eu plwyf i ddatblygu prosiectau sy'n gallu cefnogi/ gwella'r modd y mae carbon yn cael ei ddal a'i storio yn yr amgylchedd morol.</p> <p>Effeithir ar weithgareddau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol ar gyfer glanhau traethau ac afonydd sy'n cefnogi'r ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.</p>	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Cydweithio:</b> Bydd yr Awdurdod yn ceisio archwilio cyfleoedd trwy bartneriaethau i ddatblygu prosiectau sy'n gallu cefnogi/ gwella'r modd y mae carbon yn cael ei ddal a'i storio yn yr amgylchedd morol. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cysylltiadau wedi'u creu.</li> <li>✓ Cyfleoedd wedi'u hadnabod.</li> </ul>
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Ymwneud â datblygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli'r Blaendraeth. (A6)	
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Cyfranogi mewn Grwpiau Awdurdod Perthnasol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. (A6)	
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Cyfranogi yng ngrwpiau cysylltiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y môr. (A6)	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y diwrnodau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol – gweithgareddau glanhau traethau, blaendraethau ac afonydd (A6)	



## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.

### Canlyniad

Mae amgylchedd y môr, blaendraethau ac afonydd yn gwella trwy weithgareddau sy'n helpu i leihau sbwriel a llygredd môr. Mae storffeydd carbon y môr a'r blaendraethau'n cael eu gwella a'u gwarchod.

### Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

#### Argyfwng Newid Hinsawdd

Mae cydweithio o gymorth i gyflawni storffeydd carbon gwell yn yr amgylchedd morol o amgylch y Parc.

#### Colli Bioamrywiaeth

Mae cydweithio'n cefnogi bioamrywiaeth well mewn ecosystemau morol yn yr amgylchedd morol o amgylch y Parc.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Iechyd a Llesiant yn y Tymor Hir

Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.



Cyfranogwyr mewn Taith Gerdded Symudedd a gynhelir yn Saundersfoot

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

### Ffrwd Waith 1 – Cyfleoedd Cerdded â Chymorth

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc ac o'i amgylch trwy'r cynllun Walkability. Byddwn yn mynd ati ymhellach i ddatblygu ein dull trwy gyflawni'r prosiect tair blynedd Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru a ariennir gan Gronfa Iach ac Egniol Llywodraeth Cymru. Prosiect mewn

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

partneriaeth ranbarthol yw hwn sy'n cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu teithiau cerdded iechyd a lles sy'n dechrau o hybiau meddygon teulu ac yn gysylltiedig â'r hybiau hyn gan hyrwyddo cyfleoedd cerdded â chymorth fel ffurf ar bresgripsiynu cymdeithasol. Yn Sir Benfro, lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel y corff arweiniol, y nod yw datblygu 9 hwb dros y 3 blynedd nesaf.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru (Gan weithio gyda meddygfeydd teulu.) (A6)	✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y cyfranogwyr o'r cynllun Walkability	
# # y cyfranogwyr o Sir Benfro yn y prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru	
Data Arall: Gwerthusiadau prosiect. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae rhwystrau i gyfleoedd i bobl gerdded wedi'u dileu gan gael effaith gadarnhaol ar lesiant corfforol a meddyliol pobl. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu'r agenda ataliol ehangach a hybir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach – Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a thrwy'r Prosiect Cerdded er mwyn Iechyd mae model cynaliadwy'n cael ei ddatblygu y gellir ei ailadrodd mewn ardaloedd eraill ledled Cymru.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cefnogi mwy o ddefnydd o gyfleoedd teithio llesol yn y Parc, gan helpu i leihau defnydd o geir ac allyriadau carbon.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae gan fwy o bobl yr hyder i gael mynediad at gyfleoedd cerdded yn y Parc, sy'n cefnogi eu hiechyd meddyliol a chorfforol.

## Ffrwd Waith 2 – Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer partneriaethau strategol sy'n gysylltiedig ag iechyd, trwy ymwneud â gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer Datrysiadau Gwyrdd a chymdeithasol ar gyfer iechyd a Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru. Bydd cyfarfodydd rhithwir ar gyfer grwpiau perthnasol lle bo hynny ar gael yn galluogi'r Awdurdod i barhau i gyfrannu at y partneriaethau hyn ac ymgysylltu â hwy yn y tymor byr a chanolig.

Byddwn yn cyflawni gweithgareddau sy'n dangos ac yn hyrwyddo manteision y Parc i iechyd, yn enwedig hyrwyddo teithiau cerdded yn y Parc trwy wefan yr

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Awdurdod a darparu teithiau cerdded dan arweiniad yr Awdurdod. Wrth i reoliadau COVID-19 gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

### Camau Gweithredu

**Ymgysylltu Strategol:** Ymwneud â gwaith gan lechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer Datrysiadau Gwyrdd a chymdeithasol ar gyfer iechyd.

**Partneriaethau Strategol:** Ymwneud â Rhwydwaith Gwasanaeth lechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru.

### Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad

# y teithiau cylchol a lawrlwythwyd

# cyfranogwyr ar deithiau cerdded dan arweiniad y parcmynd, staff canolfannau a gwirfoddolwyr

Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.

### Canlyniad

Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl wedi cael ei wella trwy gynyddu ymwybyddiaeth a mynediad at gyfleoedd ar gyfer iechyd a llesiant yn y Parc.

### Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cefnogi mwy o ddefnydd o gyfleoedd teithio llesol yn y Parc, gan helpu i leihau defnydd o geir ac allyriadau carbon.
--------------------------------	--

<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn ymwybodol o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant yn y Parc, yn cael mynediad atynt ac yn cael budd ohonynt.
-------------------------	---

## Ffrwd Waith 3 – Mentrau a Phrosiectau Iechyd a Lles

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn hybu llesiant ar gyfer pobl o bob oed trwy ddatblygu, cyflawni a gwerthuso mentrau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddyliol a chorfforol a mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig trwy wirfoddoli. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso a datblygu prosiect i ddilyn y prosiect gwirfoddoli Llwybrau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

### Camau Gweithredu

**Datblygu Prosiect:** Cyflawni a gwerthuso'r Prosiect Llwybrau a datblygu prosiect dilynol.

### Cerrig Milltir

- ✓ Gwerthusiad o'r prosiect wedi'i gyflawni.
- ✓ Pennu cwmpas y prosiect a datblygu'r prosiect.
- ✓ Opsiynau ariannu wedi'u harchwilio.

### Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad

# y diwrnodau gwirfoddolwyr

# # cyfranogwyr mewn sesiynau gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol sy'n

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

cynnwys gweithgarwch corfforol	
Data Arall: Gwerthusiadau prosiect. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Adborth o'r fforwm gwirfoddolwyr.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae ystod eang o bobl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd eraill yn y Parc sy'n helpu i wella'u lles corfforol a meddyliol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae pobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storffeydd carbon yn y parc, gan hefyd gyfrannu at eu llesiant eu hunain.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae pobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi bioamrywiaeth mewn ecosystemau yn y Parc, gan hefyd gyfrannu at eu llesiant eu hunain.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae ystod eang o bobl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd yn y Parc sy'n gallu helpu i wella'u lles corfforol a meddyliol.

### Ffrwd Waith 4 – Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
<p>Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r cyfle i blant cyn-ysgol, plant ysgol a phobl ifanc gael budd o addysg a chwarae yn yr awyr agored trwy ein rhaglen addysg. Byddwn yn grymuso ysgolion i ennyn ymgysylltiad disgyblion â sesiynau addysg awyr agored trwy brosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro sy'n amcanu at gynorthwyo ysgolion lleol i integreiddio cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu rhaglen o weithdai cydweithredol (Cymunedau Dysgu Proffesiynol) gydag athrawon ac ymarferwyr dysgu yn yr awyr agored, sesiynau i ddisgyblion sy'n arddangos dulliau newydd o ddysgu yn yr awyr agored a darparu hyfforddiant pwrpasol (HMS) ar gyfer athrawon mewn lleoliadau yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch. Byddwn yn cyflawni'r prosiect Gwreiddiau, a ariennir gan South Hook LNG trwy Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac a gyflawnir gan Swyddog Addysg yr Awdurdod. Nod y prosiect yw archwilio cynnyrch naturiol mewn cymunedau gwledig trwy weithio gydag ysgolion iau Sir Benfro i archwilio cynnyrch a chadwyni bwyd naturiol lleol.</p> <p>Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.</p>	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Prosiect:</b> Ysgolion Awyr Agored	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu wedi'u cyflawni.</li> <li>✓ Gweithdai Cydweithredol a sesiynau HMS wedi'u darparu ar gyfer athrawon.</li> </ul>
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Prosiect Peilot Gwreiddiau.	✓ Rhaglen wedi'i darparu ar gyfer 5 ysgol.
<b>Datblygu Prosiect:</b> Y 1000	✓ Cyfleoedd ariannu wedi'u harchwilio.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Diwrnod Cyntaf – Plant cyn oed ysgol	✓ Cyllid wedi'i sicrhau.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored	
% ysgolion yn y Parc Cenedlaethol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored	
% ysgolion yn Sir Benfro sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored	
<b>Canlyniad</b>	
Mae gan fwy o blant a phobl ifanc fynediad at ddysgu yn yr awyr agored ac yn elwa o hynny, a chyfleoedd i fod yn gorfforol egniol. Mae gan athrawon y sgiliau i ddarparu sesiynau dysgu yn yr awyr agored.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae plant yn ymgysylltu â gweithgareddau ac yn dysgu am heriau a datrysiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol trwy ddeall am ecosystemau'r Parc.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac yn cael budd o'r cyfleoedd hynny.

## Ffrwd Waith 5 – Cynllunio Tai Fforddiadwy

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn defnyddio polisiâu cynllunio a chyfraniadau tai fforddiadwy A106 i ddarparu tai fforddiadwy. Cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yw conglfaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae heriau sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy yn y Parc wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol 2 a bydd cynnydd yn dilyn mabwysiadu'r cynllun yn cael ei fonitro'n flynyddol trwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.	
Mae parhau â swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod wedi cael ei adnabod fel maes gwaith sy'n flaenoriaeth yn y tymor byr a chanolig a bydd hyn yn galluogi cyfleoedd i geisiadau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy gael eu cyflwyno gerbron	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% yr unedau tai a gymeradwywyd sy'n fforddiadwy	
# unedau tai fforddiadwy a gymeradwywyd	
Cyfraniadau cytundebau Adran 106	
Data Arall: Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio. Dangosyddion Cynllun Datblygu Lleol. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae pobl ag anghenion tai yn y Parc Cenedlaethol yn gallu cael mynediad at gartref fforddiadwy gyda manteision cysylltiedig i'w llesiant.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid</b>	Mae tai sy'n cael eu datblygu yn y Parc Cenedlaethol yn

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Hinsawdd</b>	effeithlon o ran ynni ac mae ystyriaethau o ran ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael sylw o ran dylunio datblygiadau, y cymysgedd o dai ynddynt a'u lleoliad.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae pobl ag anghenion tai yn y Parc Cenedlaethol yn gallu cael mynediad at gartref fforddiadwy gyda manteision cysylltiedig i'w llesiant.

### Ffrwd Waith 6 – Lles y Gweithlu

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn adolygu ein gweithgareddau ac arlwy o ran llesiant ar gyfer staff a pholisïau perthnasol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau. Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni Lefel Efydd o ran y Safon Iechyd Gorfforaethol i ddarparu sicrwydd o ran arlwy a chefnogaeth yr Awdurdod yn y maes hwn.	
Bydd y ffrwd waith hon yn cael ei chefnogi a bydd yn alinio â'r maes gwaith sy'n flaenoriaeth yn y tymor byr a chanolig ar sicrhau llesiant a diogelwch staff.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cynnal adolygiad o'n gweithgareddau llesiant i fynd ati ymhellach i ddatblygu ein harlwy o ran llesiant ac adolygu polisiau perthnasol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Adolygiad wedi'i gynnal o weithgareddau llesiant.</li> <li>✓ Adolygiad o bolisiau perthnasol.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Y Safon Iechyd Corfforaethol	✓ Cyflawni Lefel Efydd o ran y Safon Iechyd Gorfforaethol
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Dod o hyd i gyfres o hyfforddiant i reolwyr llinell, a datblygu'r gyfres, i'w harfogi i reoli timau amrywiol a hyrwyddo diwylliant cynhwysol	✓ Pennu cwmpas yr hyfforddiant sydd ar gael.
<b>Canlyniad</b>	
Mae llesiant staff wedi cael ei wella ac mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Trwy gefnogi llesiant staff mae'r holl staff yn gallu parhau i gyfrannu at gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi'r Parc Cenedlaethol.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Cydraddoldeb yn y Tymor Hir

Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.



Grŵp Llwybrau yn gwneud Gwesty Pryfed

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

### Ffrwd Waith 1 – Cydraddoldeb Strategol: Ein Gweithlu

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd yr Awdurdod yn dechrau cynyddu llwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ac yn cyflawni gweithgareddau i fynd i'r afael â'n Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'i ddadansoddi ymhellach. Mae'r gweithgareddau hyn yn gyson ag amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod a adolygwyd yn 2019/20.

Gweithgareddau Adnoddau Dynol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a nodir yn y blaenoriaethau graddol dros y tymor byr a chanolig fydd yn dod gyntaf; fodd bynnag, lle y bo'n bosibl bydd gweithgareddau i ganlyn arni â'r ffrwd waith hon yn cael eu cyflawni.

**Camau Gweithredu**

**Cerrig Milltir**

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cychwyn adolygiad o broses recriwtio a dethol yr Awdurdod i sicrhau tegwch mewn prosesau recriwtio.	✓ Adolygiad wedi'i gychwyn fel rhan o strategaeth ehangach y cynllun pobl
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Dod yn sefydliad sy'n hyderus o ran anabledd.	✓ Cyflawni Lefel 1.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gweithgareddau i fynd i'r afael â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'i ddadansoddi ymhellach yn yr Awdurdod.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dadansoddiad pellach o ddata ac ymgysylltiad â staff.</li> <li>✓ Wedi ymrwmo i ymgyrch 'Gweithio Blaengar' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</li> </ul>
<b>Cydweithio:</b> Archwilio'r cyfleoedd gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill a'r darparwyr cadwraeth a threftadaeth i ddatblygu cynllun i hyrwyddo cyfleoedd gwaith yn y sector i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwmpas prosiect posibl.</li> <li>✓ Ymgysylltu â phartneriaid posibl.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% yr wybodaeth monitor cydraddoldeb a gwblhawyd ar system rheoli pobl	
Data Arall: Data Monitro Cydraddoldeb – Recriwtio a'r gweithle. Dadansoddiad bwllch cyflog. Data meincnodi.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at gyrraedd ei nod hirdymor, sef bod â gweithlu amrywiol, bod yn gyflogwr delfrydol a chyflawni amgylchedd gwaith cynhwysol a theg gan ei gynorthwyo i gyrraedd ei nodau strategol.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Trwy gynyddu amrywiaeth ei weithlu mae'r Awdurdod yn ehangu mynediad at gyfleoedd i gyfrannu at gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi'r Parc Cenedlaethol.

## Ffrwd Waith 2 – Cydraddoldeb Strategol: Ein Gwasanaethau

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
<p>Bydd yr Awdurdod yn datblygu cynllun hyfforddi ac yn darparu hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer staff i'w helpu i ddarparu, caffael a dylunio gwasanaethau hygyrch a chynhwysol. Byddwn yn cyflawni gweithgareddau i sicrhau bod yr offer a gwasanaethau digidol y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio'n gydnaws â thechnoleg gynorthwyol, arfer gorau a bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefan a Chymwysiadau Symudol) (Rhif2). Byddwn yn cynorthwyo ein Canolfannau i ddatblygu profiadau cynhwysol ar gyfer ymwelwyr, gan adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan gynnwys darparu sgwteri symudedd, iaith arwyddion Prydain a hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia ar gyfer staff ac awr dawel yng Nghastell Henllys.</p> <p>Effeithir ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon</p>



## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Integreiddio hyfforddiant cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb fel rhan o brosesau sefydlu ar gyfer staff.	✓ Integreiddio hyfforddiant cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb fel rhan o'r broses sefydlu.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Datblygu cynllun hyfforddi fel bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi ar sut y gallant ddarparu gwasanaethau hygyrch.	✓ Cynllun hyfforddi yn ei le.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Dull corfforaethol wedi'i ddatblygu ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau hygyrchedd ar y We	✓ Canllawiau a thempled wedi'u datblygu. ✓ Hyfforddiant wedi'i ddarparu a gwaith hyrwyddo mewnol yn cael ei wneud.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cefnogi Canolfannau'r Awdurdod i ymgysylltu ac ymuno â mentrau sy'n cefnogi mynediad ehangach i atyniadau, treftadaeth a'r cyfleoedd celfyddydol.	✓ Mentrau wedi'u datblygu. ✓ Hyfforddiant ar gyfer staff yn cael ei ddarparu.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau	
# yr ymwelwyr sy'n dod i Gastell Henllys yn ystod ei awr dawel	
Data Arall: Adroddiadau asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Cwynion. Ffurflenni gwneud gwahaniaeth. Arolygon ymwelwyr mewn Canolfannau.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at gyrraedd ei nod hirdymor mai bod â gwasanaethau hygyrch a chynhwysol yw'r drefn safonol, gan sicrhau bod pobl yn cael ymgysylltiad cadarnhaol â'r Awdurdod a'r Parc.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at gyfleoedd yn y Parc a ddarperir gan yr Awdurdod wedi cael eu dileu.

### Ffrwd Waith 3 – Tirweddau i Bawb: Cynhwysiant Cymdeithasol

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
Bydd yr Awdurdod yn cyflawni gwaith cynhwysiant cymdeithasol sy'n dileu rhwystrau i fynediad at y Parc a'i fanteision, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thlodi gwledig a thlodi plant. Mae ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol yn amrywio o'r cynllun Llwybrau sy'n dileu rhwystrau i wirfoddoli, ymgysylltu â myfyrwyr Plas Dwbl yng Nghastell Henllys, cyfleoedd ar gyfer cerdded â chymorth trwy Walkability ac ymgysylltu â phobl ifanc trwy'r cynllun parcmy'n ieuencid a'n gwaith gyda chlybiau ieuencid. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i weithio gyda Thim o Amgylch y Teulu Cyngor Sir Penfro i ddarparu gweithgareddau buddiol ar gyfer teuluoedd y maen nhw'n ymgysylltu â hwy. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu ymgysylltiad awyr agored a datblygiad sgiliau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect:</b> Cyfleoedd cynhwysiant cymdeithasol ym maes treftadaeth – Coleg Plas Dwbl yng Nghastell Henllys.	✓ Gweithgareddau'n cael eu cynnal gyda myfyrwyr Plas Dwbl.

**Ymgysylltu Strategol:** Cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru ar Grŵp Llywodraeth Cymru i Lunio Canllawiau ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

**Partneriaeth Strategol:** Datblygu datganiad safbwynt ar y cyd gyda Pharciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru ar gynhwysiant cymdeithasol a thlodi plant.

### Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad

# pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol

# cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc

# Parcmyn leuenctid gweithredol (Cyfartaledd ar gyfer pob chwarter)

Data Arall: Gwerthusiad o'r Prosiect. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.

### Canlyniad

Mae'r Awdurdod yn darparu gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n wynebu anghydraddoldebau ac yn defnyddio asedau'r Parc i gyflawni hyn. Mae rhwystrau'n cael eu dileu fel bod rhagor o bobl yn gallu helpu i ofalu am y Parc a phrofi ei Nodweddion Arbennig.

### Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae ystod eang o bobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi datrysiadau seiliedig ar natur sy'n gwella storffeydd carbon yn y Parc, gan hefyd gyfrannu at eu llesiant eu hunain.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae ystod eang o bobl yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cefnogi bioamrywiaeth mewn ecosystemau yn y Parc, gan hefyd gyfrannu at eu llesiant eu hunain.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae ystod eang o bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau yn y Parc sy'n gallu helpu i wella'u llesiant corfforol a meddyliol.

## Ffrwd Waith 4 – Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo a chefnogi tirweddau i bawb trwy'r prosiect ymchwil Profiad i Bawb, datblygu'r cynllun cadeiriau olwyn ar draethau a hyrwyddo adnoddau cerdded i bawb. Bydd yr Awdurdod hefyd yn amcanu at gynnal ystod o brosiectau mynediad corfforol i hybu profiadau mwy cynhwysol yn y Parc gan gynnwys gwelliannau i fynediad corfforol yng Nghapel a Ffynnon Santes Non (Tyddewi), creu taith gylchol fwy hygyrch yn y corslwyn, Freshwater East a gwaith ar fynediad at Gastell Caeriw. Yn unol â'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol bydd rhestr wirio ar

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

gyfer prosiectau'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod prosiectau a ddatblygir i fynd i'r afael ag effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol.

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Prosiect:</b> Prosiect Profiadau i Bawb.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Ymchwil wedi'i chwblhau.</li> <li>✓ Rhestr o flaenoriaethau a argymhellir wedi'i chynhyrchu.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Datblygu'r Cynllun Cadeiriau Olwyn ar Draethau ymhellach.	✓ Pennu cwmpas cyfleoedd i ddatblygu'r cynllun ymhellach
<b>Prosiect:</b> Gwelliannau i Fynediad Corfforol yn Santes Non (Tyddewi)	✓ Gwaith ar fynediad wedi'i gwblhau
<b>Prosiect:</b> Creu taith gylchol fwy hygyrch yn y corslwyn, Freshwater East	✓ Gwaith ar fynediad wedi'i gwblhau
<b>Prosiect:</b> Mynediad at Gastell Caeriw.	✓ Gwaith ar fynediad wedi'i gwblhau
<b>Prosiect:</b> Datblygu rhestr wirio ar gyfer prosiectau y gellir ei rhannu gyda phartneriaid i sicrhau bod prosiectau a ddatblygir i fynd i'r afael ag effeithiau CRhPC yn gynhwysol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Rhestr wirio ar gyfer prosiectau wedi'i datblygu.</li> <li>✓ Rhestr wirio ar gyfer prosiectau wedi'i rhannu gyda staff a rhanddeiliaid allanol.</li> </ul>
<b>Mesurau – Aseu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y lawrlwythiadau ar gyfer teithiau cadeiriau olwyn	
# Cadw Cadeiriau Olwyn y Traeth	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Canfyddiadau ymchwil.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod wedi dileu rhai rhwystrau i fynediad at y Parc ar gyfer y rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol sy'n golygu bod ystod fwy amrywiol o bobl yn cael mynediad at Nodweddion Arbennig y Parc, ac yn cael profiad a budd ohonynt. Mae hynny'n creu Parc sy'n dirwedd i bawb.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae prosiectau a ddatblygir mewn ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd yn ystyried rhwystrau y gall pobl eu hwynebu sy'n eu hatal rhag cael mynediad atynt neu eu defnyddio.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae mwy o bobl yn gallu ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a deall pwysigrwydd gwarchod a gwella bioamrywiaeth y Parc.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn gallu cael mynediad at Nodweddion Arbennig y Parc, a chael profiad a budd ohonynt.

**Ffrwd Waith 5 – Ymgysylltu: Allgymorth, pobl ifanc a gwirfoddolwyr**

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i geisio cyfleoedd i gynnwys ystod fwy amrywiol o bobl fel rhai sy'n dylanwadu ar waith yr Awdurdod, yn enwedig trwy weithgareddau allgymorth, gan ddatblygu mecanweithiau i bobl ifanc ddylanwadu ar waith yr Awdurdod trwy Bwyllgor Pobl Ifanc a pharhau â'r fforwm gwirfoddolwyr.	
Bydd cyfarfodydd rhithwir ac ymgysylltu digidol yn cael eu defnyddio lle y bo'n bosibl i'w gwneud yn bosibl parhau i ymgysylltu yn ystod y tymor byr a chanolig.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ymgysylltu:</b> Datblygu Pwyllgor Pobl Ifanc.	✓ Pwyllgor wedi'i sefydlu. ✓ Cynnal cyfarfodydd.
<b>Ymgysylltu:</b> Ymgysylltu trwy allgymorth i oleuo datblygiad prosiectau i gyflawni effeithiau CRhPC.	✓ Gweithgareddau allgymorth wedi'u cynnal
<b>Ymgysylltu:</b> Hwyluso Fforwm Gwirfoddolwyr APCAP	✓ Cynnal cyfarfodydd.
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Monitro'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu gan Grŵp y Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu.	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Data Ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol – Adroddiadau Diwedd Ymgyrch	
<b>Canlyniad</b>	
Mae ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod a phenderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae ystod amrywiol o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod yn ardal y Parc i ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae ystod eang o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod yn ardal y Parc i ymateb i golli bioamrywiaeth.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae ystod eang o bobl yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc ac yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar gyflawni prosiectau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n hwyluso camau i greu tirweddau i bawb.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Cymunedau yn y Tymor Hir

Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.



Adeiladu Wal Llanwnda gyda gwirfoddolwyr

**Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:**

### **Ffrwd Waith 1 – Ymgysylltu: Sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni ymgysylltiad trwy allgymorth sy'n cynorthwyo cymunedau a rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn sgwrs barhaus am y Parc a dylanwadu ar brosiectau sy'n cyflawni effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Ym mis Rhagfyr 2019 cafodd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-24 ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun yn nodi sut yr hoffai'r Awdurdod weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, nid dim ond gan yr Awdurdod ei hun, ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc. Byddwn yn dathlu cyfraniad eraill at gyflawni'r Cynllun.

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Datblygu deunyddiau i egluro'r cynllun ac ar gyfer ymgysylltu â phobl wrth ddatblygu prosiectau.	✓ Deunyddiau ategol, gan gynnwys deunyddiau digidol i helpu i egluro a hyrwyddo blaenoriaethau yn y cynllun wedi'u datblygu.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol i oleuo'r broses o gyflawni ar lefel prosiectau.	✓ Camau gweithredu yn eu lle ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd, Colli Bioamrywiaeth, Treftadaeth - Archeoleg.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cyflawni gweithgareddau sy'n dathlu cyfraniad eraill at gyflawni'r cynllun.	✓ O leiaf un gweithgaredd wedi'i gyflawni i ddathlu cyfraniad eraill at gyflawni'r cynllun.

### **Canlyniad**

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ddogfen fyw ac mae pobl yn ymgysylltu â gwaith i'w gyflawni.

### **Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae mwy o bobl yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar gyflawni prosiectau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae mwy o bobl yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar gyflawni prosiectau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar gyflawni prosiectau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n hwyluso gwaith i greu tirweddau i bawb.

## Ffrwd Waith 2 – Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd yr Awdurdod yn hybu cydnherthedd cymunedol trwy ennyn ymgysylltiad cymunedau â phrosiectau, gwirfoddoli a chyfleoedd ar gyfer gweithredu cymdeithasol yn y Parc, gan gyfranogi mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid cymunedol a defnyddio asedau'r Parc i gynnal cyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd. Mae Parcmy'n yr Awdurdod yn cefnogi cymunedau lleol yn y Parc ac yn agos ato trwy ddarparu gweithgareddau a sgysiau lleol, cwrdd â rhanddeiliaid cymunedol a chyflawni gwelliannau lleol ar raddfa fach. Mae archeolegydd cymunedol yr Awdurdod yn cynorthwyo ystod o grwpiau cymunedol i ymgysylltu â chyfleoedd treftadaeth ac archeolegol lleol. Mae'r Canolfannau'n cynnal digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn sy'n helpu i ddod â chymunedau ynghyd. Mae cyfleusterau o fewn y canolfannau hefyd yn cynnig cyfleoedd i grwpiau gwrdd gydag Oriel y Parc yn cynnal y Caffi Atgofion Lleol. Elfen ganolog o gyflawni'r Prosiect Pwyth mewn Pryd yw annog cymunedau i ymgysylltu â mater rhywogaethau goresgynnol ac ymateb iddo. Mae tîm dehongli'r Awdurdod yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu paneli dehongli. Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithio gyda Chynghorau Cymuned i archwilio cyfleoedd i ddatblygu prosiect

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Ilygredd golau a arweinir gan gymunedau.

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Datblygu Prosiect:</b> Prosiect yn cael ei ddatblygu gyda Chynghorau Cymuned i fynd i'r afael â llygredd golau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cwmpas y prosiect wedi'i bennu a'r prosiect wedi'i ddatblygu</li> <li>✓ Cyllid wedi'i sicrhau</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Ymgysylltu â chymunedau trwy'r Prosiect Pwyth mewn Pryd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Gweithgareddau gyda chymunedau</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gweithgarwch ymgysylltu rhwng canolfannau a chymunedau lleol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cymorth i ddigwyddiadau lleol</li> <li>✓ Cynnal grwpiau</li> </ul>

**Ymgysylltu Strategol:** Ymwneud â'r Bartneriaeth Troseddau Gwledig a Grŵp Cymunedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad

# prosiect cymunedol/ gweithgareddau ymgysylltu

# diwrnodau gweithredu cymdeithasol

# digwyddiadau cymunedol a gynhelir mewn canolfannau

# Wardeniaid Gwirfoddol

Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Mapio ymgysylltiad cymunedol.

### Canlyniad

Mae cydnerthedd cymunedau yn y Parc yn cael ei gefnogi trwy ymgysylltiad cymunedau, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol â gweithgareddau a chyfleoedd cymunedol sy'n defnyddio asedau naturiol a threftadaeth y Parc.

### Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae cymunedau, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol yn cael cyfleoedd i gefnogi gweithgareddau sy'n ymateb i fater y newid yn yr hinsawdd yn y Parc.
--------------------------------	--

<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae cymunedau, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol yn cael cyfleoedd i gefnogi gweithgareddau sy'n ymateb i fater colli bioamrywiaeth yn y Parc.
----------------------------	---

<b>Tirweddau i Bawb</b>	Mae mwy o bobl yn gallu cael mynediad at weithgareddau cymunedol yn ardal y Parc sy'n defnyddio'i asedau naturiol a threftadaeth.
-------------------------	---

## Ffrwd Waith 3 – Cronfa Datblygu Cynaliadwy

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn ailbennu ffocws y Gronfa Datblygu Cynaliadwy fel ei bod yn cynorthwyo pobl i ddatblygu prosiectau arloesol sydd â ffocws ar ymateb i Argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd. Byddwn yn gweithio i wella'r sylw a roddir i'r gronfa ac ansawdd ceisiadau i'r gronfa.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Ailalinio'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i gefnogi prosiectau sydd â ffocws ar ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd a chynyddu'r sylw a roddir i'r gronfa a gwella ansawdd ceisiadau. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Meini prawf y gronfa wedi'u diwygio.</li> <li>✓ Ffurflenni cais wedi'u diweddarau.</li> <li>✓ Cymorth marchnata a datblygu prosiectau wedi'i adolygu.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ddyrannwyd	
Data Arall: Adroddiadau a Gwerthusiadau Prosiectau.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau sy'n ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd, gan helpu i hybu datgarboneiddio, effeithlonrwydd adnoddau a gwella storfeydd carbon yn y Parc a'r ardaloedd o'i amgylch.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cefnogir prosiectau sy'n ymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd, gan helpu i hybu datgarboneiddio, effeithlonrwydd adnoddau a gwella storfeydd carbon yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae prosiectau sy'n gwella storfeydd carbon naturiol yn y Parc hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth yn y Parc.

## Ffrwd Waith 4 – Gwasanaeth Cynllunio: Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaeth gorfodaeth cynllunio effeithiol gyda chymorth a gymuned ac yn parhau i ymgysylltu â chynghorau cymuned. Effeithir ar rai gweithgareddau gorfodaeth cynllunio gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.	
Gan bod swyddi gwag yn yr adran rheoli datblygu yn 2019/20 nid yw'r Awdurdod wedi gallu canlyn arni â'i brosiect â ffocws pendant a oedd yn yr arfaeth i fonitro gweithgareddau o ran daliadau amgylcheddol a llety gwyliau. Pan fydd amodau'n caniatáu bydd yr Awdurdod yn amcanu at ganlyn arni â'r prosiect hwn.	
Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect:</b> Prosiect gorfodaeth cynllunio ar anheddau amaethyddol a llety gwyliau.	✓ Gwaith ymgysylltu wedi'i wneud
<b>Ymgysylltu:</b> Ymgysylltu rhwng y Gwasanaeth Cynllunio a Chynghorau Cymuned.	✓ Presenoldeb yng Nghyfarfodydd Cynghorau Cymuned
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% yr achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd (o fewn 84 diwrnod)	
Yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodaeth mewn diwrnodau	
Yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodaeth mewn diwrnodau	



## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

# ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a gofrestrwyd

Data Arall: Adroddiad Cynllunio Blynnyddol. Arolwg Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru

### Canlyniad

Gwasanaeth gorfodaeth cynllunio effeithiol yn ei le, gyda chefnogaeth cymunedau. Mynd ati'n well i fonitro anheddau amaethyddol a meddiannaeth llety gwyliau. Mae gwasanaethau cynllunio'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid da ac maent wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chymunedau yn y Parc.

### Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

#### Colli

#### Bioamrywiaeth

Mae camau gorfodi'n cael eu cymryd ar ddatblygiadau a gweithgareddau sy'n mynd yn groes i amodau cynllunio ac yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth yn y Parc.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Diwylliant yn y Tymor Hir

Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.



Arddangosfa Mwydod yn Oriel y Parc

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

### Ffrwd Waith 1 – Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd hanesyddol y Parc trwy

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Gastell Caeriw a Chastell Henllys a rhaglen yr Awdurdod i ysgolion, ei waith dehongli, ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau. Bydd Castell Henllys a Chastell Caeriw yn gweithio tuag at roi eu cynlluniau busnes a ddatblygwyd yn 2019/20 ar waith. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o gynlluniau adfer.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnlol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gweithgareddau i gefnogi'r broses o roi'r cynllun busnes ar waith yng Nghaeriw.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Diwygio cynlluniau i adlewyrchu cynlluniau adfer.</li> <li>✓ Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu a nodir yng nghynllun busnes Caeriw.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gweithgareddau i gefnogi'r broses o roi'r cynllun busnes ar waith yng Nghastell Henllys.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Adolygu cynlluniau i adlewyrchu cynllun adferiad.</li> <li>✓ Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu a nodir yng nghynllun busnes Caeriw.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Castell Caeriw – Ystafell arddangos a gwaith dehongli arall.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae'r gwaith dehongli wedi'i gwblhau.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Caeriw	
Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Castell Henllys	
# yr ymwelwyr i Gaeriw a # yr ymwelwyr i Gastell Henllys	
# cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol	
Castell Henllys - # plant ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen addysg	
Caeriw - # plant ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen addysg	
Data Arall: Arolwg Ymwelwyr. Adborth o ddigwyddiadau ac ysgolion. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae pobl yn cael profiad cadarnhaol fel ymwelwyr yng Nghaeriw ac yng Nghastell Henllys fel ein Canolfannau hanesyddol. Mae ymwelwyr, trigolion lleol a phlant ysgol yn gwerthfawrogi ac yn deall ac yn gwybod mwy am hanes yr ardal.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Cynyddu mynediad a chyfleoedd i ymgysylltu â threftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol yn ardal y Parc.

## Ffrwd Waith 2 – Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
Bydd yr Awdurdod yn ennyn ymgysylltiad pobl â'r gwaith celf sy'n cael ei arddangos yn Oriol Y Parc ac yn parhau i gefnogi ei chynllun artistiaid preswyl. Mae'r Awdurdod ac Amgueddfa Cymru wedi parhau i gydweithio'n agos ar guradu arddangosfeydd yn Oriol y Parc, ac mae cytundeb lefel gwasanaeth yn ei le rhwng y ddau sefydliad. Bydd Oriol y Parc yn treialu rhaglen addysg sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd a fydd yn cael ei chyflawni gan staff y ganolfan ac

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

yn darparu cyfleoedd i blant ymgysylltu â chelf a chreffft trwy Glwb Celf a Chreffft dydd Mercher yn ystod gwyliau ysgol.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.

<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> OYP yn cyflawni rhaglenni addysg sy'n gysylltiedig ag Arddangosfeydd.	✓ Sesiynau rhaglen addysg a ddarperir gan staff OYP wedi'u treialu.
<b>Partneriaeth strategol:</b> Parhau i guradu arddangosfeydd mewn partneriaeth a chynnal cyswllt ag Amgueddfa Cymru, a hynny'n cael ei gefnogi trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth.	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# yr ymwelwyr â'r oriel	
Oriel y Parc - # ymgysylltu â phobl drwy raglen addysg	
# yn cymryd rhan yng Nghlwb Celf Gwyliau Ysgol Dydd Mercher	
Data Arall: Gwerthusiadau o arddangosfeydd. Arolwg Ymwelwyr. Adborth o ddigwyddiadau ac ysgolion. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae ymwelwyr, trigolion a phlant ysgol yn ymgysylltu â gwaith celf o'r Casgliad Cenedlaethol a gweithiau celf eraill sy'n cael eu harddangos ac maent yn cael profiad cadarnhaol ac ysbrydoledig.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Ennyn ymgysylltiad pobl â thestunau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd ac ymatebion iddo trwy gyfleoedd celf ac addysg.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Ennyn ymgysylltiad pobl â thestunau sy'n gysylltiedig cholli bioamrywiaeth ac ymatebion iddo trwy gyfleoedd celf ac addysg.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Cynyddu mynediad a chyfleoedd i ymgysylltu â gweithiau celf sy'n hyrwyddo rhinweddau arbennig y Parc.

### Ffrwd Waith 3 – Yr Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Archeoleg Gymunedol

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn cynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ynghylch rheoli trwy ei Swyddog Cadwraeth Adeiladu. Byddwn yn cynorthwyo grwpiau cymunedol ac ysgolion yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol, gan gynnwys trwy'r Cynllun Gwarchodwyr Treftadaeth.

Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau Archeoleg Gymunedol yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall yr Awdurdod gynnal ei Ddiwrnod Archeoleg Blynyddol.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect:</b> Prosiect ysgolion Arwyr Amser.	✓ Darparu'r rhaglen Gwarchodwyr Treftadaeth ar gyfer 3 ysgol.
<b>Datblygu Prosiect:</b> Datblygu a chyflawni Prosiectau Archeoleg Cymunedol.	✓ Datblygu a chyflawni prosiectau archeoleg gyda chymunedau.
<b>Ymgysylltu:</b> Partneriaethau Ymchwil a Chloddio yn y Parc – Archeoleg Gymunedol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cysylltiadau wedi'u creu.</li> <li>✓ Cynnwys a chymorth ar gyfer gweithgareddau ar y cyd yn y Parc.</li> <li>✓ Comisiynu arolwg henebion cofrestredig.</li> </ul>
<b>Digwyddiad:</b> Cynnal y Diwrnod Archeoleg Blyneddol.	✓ Digwyddiad wedi'i gynnal (os yw amodau'n caniatáu).
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
<p>% Adeiladau mewn Perygl</p> <p># y safleoedd archeolegol lle mae amodau wedi gwella</p> <p># y safleoedd archeolegol lle mae amodau wedi gwella gyda chymorth gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol</p> <p><b>Data Arall:</b> Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Adroddiadau Cytundeb Datganiad ar y Cyd ar Amgylchedd Hanesyddol y Parc Cenedlaethol.</p>	
<b>Canlyniad</b>	
<p>Mae safleoedd hanesyddol yn cael eu rheoli a'u hadfer o fewn y Parc. Mae cymunedau'n cydnabod gwerth safleoedd hanesyddol yn y Parc ac yn rhan o ofalu amdanynt.</p>	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Datblygu dulliau i ymateb i effaith y newid yn yr hinsawdd ar henebion cofrestredig ac adeiladau hanesyddol.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Cynyddu mynediad a chyfleoedd i bobl ymgysylltu a gofalu am safleoedd hanesyddol yn y Parc.

## Ffrwd Waith 4 – Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio

Beth fyddwn ni'n ei wneud
<p>Bydd yr Awdurdod yn mynd ati ymhellach i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a pherthnasoedd rhwng y canolfannau, gyda sefydliadau a rhanddeiliaid eraill o fewn y sector treftadaeth, celfyddydau a diwylliant. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r fenter Gwylio Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw sy'n amcanu at ymateb i fater troseddau treftadaeth. Byddwn yn parhau i gyfranogi yn y prosiect diwylliannol Ysbrydoli Sir Benfro sy'n amcanu at gynyddu cydweithio a datblygu sgiliau entrepreneuriaid i feithrin cydnerthedd ar gyfer darparwyr celfyddydau creadigol yn Sir Benfro. Mae'r prosiect partneriaeth Ailddarganfod Hen Gysylltiadau a ariennir â chyllid grant yn cyflawni rhaglen dair blynedd o weithgarwch treftadaeth, diwylliannol, celfyddydol a chymunedol gan amcanu at gynyddu ymweliadau tramor â Gogledd Orllewin Sir Benfro a Swydd Wexford, Iwerddon.</p> <p>Bydd cyfarfodydd rhithwir ac ymgysylltu digidol yn cael eu defnyddio lle y bo'n bosibl i'w gwneud yn bosibl parhau i ymgysylltu yn y tymor byr a chanolig</p>

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Cyfrannu yn y Prosiect Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol	✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Ymwneud ag Ysbrydoli Sir Benfro.	
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Cyflawni'r Cynllun Gwyllo Treftadaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Cadw.	
Canlyniad	
Trwy Gwyllo Treftadaeth mae cymunedau ac ymwelwyr yn meddu ar yr wybodaeth i atal difrod i safleoedd treftadaeth rhag digwydd. Mae gweithgareddau trwy weithio mewn partneriaeth yn helpu i ennyn ymgysylltiad cynulleidfaoedd newydd â gweithgareddau sy'n seiliedig ar dreftadaeth a'r celfyddydau yn y Parc ac yn datblygu'r arlwy sydd ar gael ymhellach.	
Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Cydweithio i ddatblygu dulliau i ymateb i effaith y newid yn yr hinsawdd ar henebion cofrestredig ac adeiladau hanesyddol.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Cydweithio i ennyn ymgysylltiad pobl â thestunau sy'n gysylltiedig â cholli bioamrywiaeth trwy gyfleoedd celf, treftadaeth ac addysg.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Gweithio ar y cyd i gynyddu mynediad a chyfleoedd i bobl ymgysylltu â gweithgareddau treftadaeth a diwylliannol yn y Parc.

## Ffrwd Waith 5 – Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth

Beth fyddwn ni'n ei wneud	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr ymgysylltu â'r Parc yn Gymraeg, gan gynnwys datblygu Castell Henllys fel hwb Cymraeg a chynnal gweithgareddau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gwaith ac yn datblygu cynllun mentora staff i hwyluso hyn.	
Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.	
Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Prosiect:</b> Datblygu Castell Henllys fel Hwb Cymraeg.	✓ Gweithgareddau'n cael eu darparu i gefnogi hyn gan gynnwys treialu digwyddiad barddoniaeth/ llenyddiaeth dros dro. ✓ Chwilio am gyfleoedd pellach.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Datblygu Cynllun Mentora Cymraeg i'r Staff.	✓ Cynllun treialu wedi'i ddarparu gan gael ei oleuo gan y fforwm staff ac ymgysylltu ehangach â staff.
Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad	

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

# y staff sydd wedi cwblhau cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith	
% y wybodaeth lefel y Gymraeg a gwblhawyd ar y System Rheoli Pobl	
# digwyddiadau a gweithgareddau a gyflwynir yn Gymraeg	
# cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gyflwynir yn Gymraeg	
# sesiynau ysgol a gyflawnir yn Gymraeg	
# cyfranogwyr sy'n mynychu sesiynau ysgol a gyflawnir yn Gymraeg	
Data Arall: Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth. Adborth gan ymwelwyr ac ysgolion. Cwynion	
<b>Canlyniad</b>	
Mae mwy o blant ysgol, ymwelwyr ac eraill yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sgiliau iaith Gymraeg pobl yn datblygu drwy gyfleoedd a ddarperir gan yr Awdurdod.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Cynyddu mynediad a chyfleoedd i bobl ymgysylltu â'r Parc yn Gymraeg a deall treftadaeth sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn y Parc.

## Cyflawni'r Amcan Llesiant Byd-eang yn y Tymor Hir

Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.



Gwibiwr Strwmbwl un o'r Bysiau Arfordirol

Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

## Ffrwd Waith 1 – Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn hybu dull carbon niwtral ac effeithlonrwydd adnoddau yn ein gwaith ac o fewn y Parc, gan gynnwys Gwyrddu ein Fflyd a chefnogi cludiant cynaliadwy o fewn y Parc. Byddwn yn datblygu prosiectau sy'n gallu helpu i wella storffeydd carbon y Parc ar raddfa fawr. Byddwn yn gweithio gydag eraill i ymateb i risgiau'r newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn cysoni ein System Gofnodi â Methodoleg Llywodraeth Cymru unwaith y caiff ei rhyddhau.

I hybu ein heffaith yn y maes hwn mae Cynllun Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei ddatblygu sy'n un o'r camau gweithredu ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2019. Bydd gweithgareddau ar draws ffrydiau gwaith ac amcanion eraill gan gynnwys prosiectau rheoli tir cadwraeth a bioamrywiaeth a chysylltedd hefyd yn cyfrannu at ein hymateb i argyfwng y newid yn yr hinsawdd.

Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

Camau Gweithredu	Cerrig Milltir
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Mabwysiadu a Monitro Cynllun Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mabwysiadu Cynllun Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd</li> <li>✓ Diweddariad chwarterol ar statws.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Creu System Gofnodi Rheoli'r Amgylchedd sy'n gyson â Methodoleg Llywodraeth Cymru. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwmpas gofynion y system.</li> <li>✓ Datblygu system.</li> <li>✓ Cofnodion yn cael eu diweddarau ar y system.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Canolfannau'n parhau i ennill Gwobrau Allwedd Gwyrdd a bioamrywiaeth a lleihau carbon a gwastraff yn cael eu hyrwyddo ar eu safleoedd. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae'r Wobr Allwedd Gwyrdd yn dal i gael ei hennill ar draws safleoedd.</li> <li>✓ Mentrau bioamrywiaeth a gwastraff yn cael eu hyrwyddo a'u cyflawni.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Prosiect Cydnerthedd Tiroedd Comin – Storfa Garbon Mawn. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cyflawni cerrig milltir y prosiect.</li> </ul>
<b>Datblygu Prosiect:</b> Mynd ati ymhellach i ddatblygu prosiectau sy'n cefnogi dal a storio carbon ar raddfa fawr yn y Parc. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynllun prosiectau manwl yn ei le.</li> <li>✓ Cyfleoedd posibl i gael cyllid wedi'u hadnabod</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Gwyrddu ein Fflyd a'n Hoffer. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Mae cerbydau'r fflyd yn cael eu disodli â cherbydau allyriadau isel neu hybrid/trydan lle y bo'n bosibl.</li> </ul>
<b>Datblygu Prosiect:</b> Gwyrddu ein cymunedau – cydweithio gyda chymunedau, busnesau lleol a gwirfoddolwyr i gyflawni gweithgareddau mewn ymateb i'r	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Datblygu prosiectau cymunedol.</li> <li>✓ Cyfleoedd posibl ar gyfer cyllid wedi'u hadnabod.</li> </ul>

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

newid yn yr hinsawdd ar lefel gymunedol. (A6)	
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Hyrwyddo rhestrau a mentrau Teithio Cynaliadwy a Llesol i staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau APCAP. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwmpas mentrau a'u datblygu.</li> <li>✓ Cyflawni o leiaf un fenter.</li> </ul>
<b>Prosiect Partneriaeth:</b> Rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan. (A6)	✓ Cyfleoedd wedi'u hadnabod i gynyddu cyfraniad yr Awdurdod at y prosiect hwn
<b>Prosiect Fesul Cam:</b> Gwyrddu ein Hadeiladau – Astudiaeth Ddichonoldeb. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chynnal.</li> <li>✓ Rhaglen barhaus o waith wedi'i flaenoriaethu yn ei lle.</li> </ul>
<b>Prosiect:</b> Prosiect Cynhyrchu PV ffotofoltaidd (A6)	✓ Paneli ffotofoltaidd (PV) wedi'u gosod.
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Ymwneud yn barhaus â Fforwm Ynni Sir Benfro (A6)	
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Ymwneud yn barhaus ag Asesiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro o Risgiau Amgylcheddol a'r Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro (A6)	
<b>Partneriaethau Strategol:</b> Cadarnhau cefnogaeth barhaus i'r gwasanaeth bysiau arfordirol (Trwy Lonydd Glas). (A6)	
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
Allyriadau carbon blynyddol Kg (A6)	
% cerbydau yr Awdurdod sy'n hybrid/ trydan (A6)	
# pwyntiau gwefru newydd cerbydau trydan wedi'u cwblhau (A6)	
KW o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu o baneli ffotofoltaidd yr Awdurdod (A6)	
Nodyn ar y Data: Bydd yr Awdurdod yn ailalinio'i fethodoleg cyfrifo carbon a thargedau cysylltiedig â methodoleg Llywodraeth Cymru unwaith y caiff ei rhyddhau.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod yn lleihau ei allyriadau carbon ac yn cyflawni effeithlonrwydd adnoddau. Mae prosiectau a ddatblygir yn helpu i wella storfa carbon y Parc ar raddfa fawr gan hefyd helpu i ymateb i her gysylltiedig colli bioamrywiaeth. Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at yr ymateb lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i argyfwng y newid yn yr hinsawdd.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Trwy gyflawni gweithgareddau a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Awdurdod ar y Newid yn yr Hinsawdd, bydd yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon yn y Parc.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Bydd prosiectau sydd o gymorth i wella storfeydd carbon naturiol hefyd yn cyfrannu at her gysylltiedig ymateb i golli bioamrywiaeth yn y Parc.



## Ffrwd Waith 2 – Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgol, cymunedau ac ymwelwyr ddarganfod nodweddion arbennig y Parc, ymgysylltu â hwy a dysgu amdanynt trwy weithgareddau, dehongli a chyfleoedd gwyddor dinasyddion.	
Effeithir yn sylweddol ar weithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â gweithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon.	
Byddwn yn cysoni ein rhaglen addysg â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru fel bod plant yn gallu parhau i gael budd o gyfleoedd dysgu yn y Parc.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Ailalinio'r arlwy addysgol â'r Cwricwlwm Newydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Datblygu sesiynau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Newydd ar draws timau.</li> <li>✓ Rhaglen hyblyg newydd yn ei lle.</li> <li>✓ Gweithdy addysgwyr APCAP yn cael ei gynnal.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# y sesiynau ysgol newydd a ddatblygir sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd	
# sy'n cyfranogi mewn sesiynau ysgol newydd sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd	
Sgôr adborth ysgolion ar gyfartaledd (1-11)	
# cyfranogwyr yn ein rhaglen addysg	
Sgôr adborth y cyhoedd ar gyfartaledd (1-11)	
# y cyfranogwyr yn y rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus	
# cyfranogwyr yn y digwyddiadau Awyr Dywyll a gynhaliwyd gan yr Awdurdod	
# y ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect Arfordir Newidiol	
# diwrnodau gwirfoddoli – arolwg neu fonitro cadwraeth bywyd gwyllt	
# diwrnodau gwirfoddoli – monitor safleoedd treftadaeth	
Data Arall: Adborth o ddigwyddiadau ac ysgolion. Astudiaethau achos gwneud gwahaniaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Ceir mwy o ddealltwriaeth am nodweddion arbennig y Parc ac mae mwy o bobl yn gallu cael mynediad atynt a chael eu hysbrydoli ganddynt. Mae mwy o bobl yn teimlo'u bod wedi ymgysylltu â materion sy'n ymwneud â newid arfordirol, bioamrywiaeth a threftadaeth yn eu hardal leol. Mae plant yn parhau i gael budd o gyfleoedd dysgu yn y Parc.	
<b>Cyflawni Ymgyrchoedd Effaith Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</b>	
<b>Argyfwng Newid Hinsawdd</b>	Mae cyfleoedd a digwyddiadau dysgu a gwyddor dinasyddion yn darparu cyfleoedd i bobl ddysgu mwy am effaith y newid yn yr hinsawdd yn y Parc a'i effeithiau bydeang ehangach a'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hynny.
<b>Colli Bioamrywiaeth</b>	Mae cyfleoedd a digwyddiadau dysgu a gwyddor dinasyddion yn darparu cyfleoedd i bobl ddysgu mwy am

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

	effaith colli bioamrywiaeth yn y Parc, a'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hynny.
<b>Tirweddau i Bawb</b>	Cynyddu mynediad a chyfleoedd i ymgysylltu a dysgu mwy am Nodweddion Arbennig y Parc.

## Cyflawni Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Cydnerthedd y Gweithlu a'i Ddatblygu yn y Tymor Hir

### Llywodraethu o fewn yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod llawn yn cwrdd o leiaf chwe gwaith bob blwyddyn i ystyried materion polisi a gwneud penderfyniadau ynghylch eitemau nad ydynt wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr. Mae'r Awdurdod llawn yn pennu'r gyllideb bob mis Chwefror. Mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cwrdd bob chwe wythnos i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Adroddir ar berfformiad gweithredol bob chwarter wrth y Pwyllgor Adolygu Gweithredol gydag adroddiadau cyllid ac archwilio'n cael eu cyflwyno'n chwarterol hefyd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac Archwilio. Gall y ddau bwyllgor adolygu argymhell yr angen am weithredu pellach wrth yr Awdurdod llawn. Hefyd, mae cyfarfodydd Rheolwyr wythnosol a chyfarfodydd Arweinwyr Timau misol yn adolygu perfformiad. Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynorthwyo Aelodau'r Awdurdod i gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru ac i drefnu bod cyngor a hyfforddiant yn cael eu darparu.

Yn dilyn adolygiad canol tymor mae'r cylch cynllunio perfformiad yn ailddechrau i baratoi'r gyllideb a blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y flwyddyn ganlynol gyda chywilydd o weithdai a fynychir gan Aelodau.

### Gweithgareddau dan ffrydiau gwaith sydd o gymorth i gyflawni'r amcan hwn:

#### Ffrwd Waith 1 – Cynllunio Tymor Hir a Blaenoriaethu Prosiectau

##### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni gweithgareddau i gefnogi cynllunio hirdymor corfforaethol ac ariannol, gan gynnwys ennyn ymgysylltiad Aelodau yn y broses hon ac ailasesu ei flaenoriaethau a'i Amcanion Llesiant. Bydd yr Awdurdod yn datblygu cynigion prosiect ar gyfer Cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at gyflawni Cynllun Rheoli ac Amcanion Llesiant y Parc Cenedlaethol a heriau ehangach o ran ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, twristiaeth gynaliadwy a cholli bioamrywiaeth. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro ac ymateb i effeithiau a chyfleoedd deddfwriaethol, polisi a gweithredol ar ôl ymadael â'r UE.

##### **Camau Gweithredu**

##### **Cerrig Milltir**

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cychwyn adolygiad o flaenoriaethau ac amcanion llesiant yr Awdurdod.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwmpas yr adolygiad.</li> <li>✓ Adolygiad wedi'i gychwyn.</li> <li>✓ Cynnwys Aelodau.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cynllun 5 mlynedd Sarn Caeriw	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynnydd parhaus yn erbyn y cynllun.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Effaith Carbon wedi'i ymgorffori yng nghynigion ar gyfer prosiectau. (A6)	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynigion ar gyfer prosiectau yn cynnwys effaith carbon</li> </ul>
<b>Datblygu Prosiect:</b> Datblygu cynigion prosiect ar gyfer Cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chronfa 'Pethau Pwysig' Croeso Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwmpas Prosiectau.</li> <li>✓ Cynigion prosiect wedi'u datblygu a'u cyflwyno.</li> <li>✓ Sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau.</li> </ul>
<b>Ymgysylltu Strategol:</b> Monitro ac ymateb i effeithiau a chyfleoedd deddfwriaethol, polisi a gweithredol ar ôl ymadael â'r UE.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae cyfeiriad teithio clir seiliedig ar flaenoriaethau wedi'i bennu, gan sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd ac yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Llesiant Sir Benfro a heriau ehangach o ran ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.	

## Ffrwd Waith 2 – Codi Arian a Chreu Incwm

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>
Bydd yr Awdurdod yn creu cyllid o ffynonellau amgen ac yn cefnogi Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ei gweithgareddau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i adnabod a chreu cyllid o ffynonellau amgen oherwydd yr hinsawdd bresennol o ran adnoddau cyfyngedig.
Effeithir yn sylweddol ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.
<b>Camau Gweithredu</b>
<b>Partneriaeth Strategol:</b> Darparu cefnogaeth barhaus i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>
£ o gynllun noddi iet
£ o gynllun peilot rhoddion nad ydynt mewn arian parod yn Oriol Y Parc
£ Nwyddau yn y Canolfannau
£ Tâl mynediad i Caeriw ac i Gastell Henllys
£ Incwm Arall y Canolfannau
£ Incwm Rhent Caffi - Castell Henllys a Oriol Y Parc
£ Incwm gwerthiant Caffi Caeriw
Data Arall: Adroddiadau cyllideb. Adroddiadau ar gynnydd cyllid ar gyfer prosiectau wedi'u blaenoriaethu.

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

### Canlyniad

Mae'r sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir gan ei alluogi i gyflawni ei Amcanion Llesiant a chyfrannu at gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Llesiant Sir Benfro a heriau ehangach o ran ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

### Ffrwd Waith 3 – Datblygu'r Gweithlu

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn adolygu arferion Adnoddau Dynol cyfredol ac yn datblygu Cynllun Pobl i lywio datblygiad y gweithlu ar draws yr Awdurdod, gan helpu i sicrhau ei fod yn lle gwych i weithio a bod staff yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

Gweithgareddau Adnoddau Dynol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a nodir yn y blaenoriaethau graddol dros y tymor byr a chanolig fydd yn dod gyntaf; fodd bynnag, lle y bo'n bosibl bydd gweithgareddau i ganlyn arni â'r ffrwd waith hon yn cael eu cyflawni.

#### Camau Gweithredu

**Ffyrdd o Weithio:** Datblygu Cynllun Pobl.

#### Cerrig Milltir

- ✓ Adolygu arferion cyfredol.
- ✓ Arolwg Barn Cyflogeion wedi'i gynnal a'i ddadansoddi.
- ✓ Cynllun Pobl wedi'i ddatblygu

### Canlyniad

Mae gan yr Awdurdod weithlu sydd wedi'i rymuso ac sy'n gydnerth ac yn meddu ar y sgiliau a'r cymhelliant angenrheidiol i gyrraedd ei nodau a chyflawni ei amcanion strategol ehangach.

### Ffrwd Waith 4 – Gwella'r Modd yr ydym yn Gweithio - Dulliau Digidol

#### Beth fyddwn ni'n ei wneud

Bydd yr Awdurdod yn parhau â'i waith trawsnewid digidol, gan gynnwys digideiddio gwasanaethau cynllunio a rhoi Office 2016 ar waith ar draws yr Awdurdod, a rhoi system Adnoddau Dynol a system rheoli perfformiad newydd ar waith. Effeithir ar rai gweithgareddau yn y ffrwd waith hon gan reoliadau COVID-19. Wrth i reoliadau gael eu llacio ac i'r Awdurdod roi cynllun adfer mewnol graddol ar waith bydd yn gallu ymgysylltu o'r newydd â'r gweithgareddau hyn.

Gweithgareddau a nodir yn y blaenoriaethau graddol dros y tymor byr a chanolig ar gyfer rhoi arferion gweithio effeithiol ar waith fydd yn dod gyntaf; fodd bynnag, lle y bo'n bosibl bydd gweithgareddau i ganlyn arni â'r ffrwd waith hon yn cael eu cyflawni.

#### Camau Gweithredu

#### Cerrig Milltir

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Rhaglen Trawsnewid Digidol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Adolygiad ac argymhellion ar gyfer y gwasanaeth Rheoli Datblygu.</li> <li>✓ Cofnodion cynllunio hanesyddol wedi'u digideiddio.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Newid i Office 2016 ar draws yr Awdurdod.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Newid byrddau gwaith.</li> <li>✓ Diweddarau seilwaith.</li> <li>✓ Diweddarau Outlook/ Share Point.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Disodli'r System Adnoddau Dynol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Caffael system</li> <li>✓ Hyfforddi staff.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Disodli'r System Rheoli Perfformiad.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Pennu cwrmpas system a'i chaffael.</li> <li>✓ Cychwyn hyfforddiant staff.</li> </ul>
<b>Canlyniad</b>	
Mae ffyrdd yr Awdurdod o weithio'n ei gwneud yn haws i staff gyrraedd nodau a chyflawni effeithiau strategol ehangach a darparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer y cyhoedd neu gyflogaion yng nghyd-destun Adnoddau Dynol.	

### Ffwrdd Waith 5 – Iechyd a Diogelwch

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn parhau i adnabod cyfleoedd i wella'i brosesau ac arferion o ran monitro ac ymateb i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch a chefnogi iechyd a llesiant ei weithlu.	
Bydd Iechyd a Diogelwch staff, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn rhan ganolog o feysydd gwaith ar gyfer blaenoriaethau graddol yn y tymor byr a chanolig.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Digiddeiddio Adroddiadau Iechyd a Diogelwch.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Proses adrodd wedi'i digideiddio yn ei lle.</li> </ul>
<b>Mesurau – Aseu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# Diwrnodau a gollwyd/cyferwerth amser-llawn	
# RIDDOR – Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (Digwyddiadau Hysbysadwy)	
# achosion damweiniau (Anafiadau) – absenoldeb dros 3 diwrnod/hyd at 7 diwrnod	
# achosion mân ddamweiniau (Anafiadau)	
# achosion difrod i gerbydau	
# achosion o wrthdaro	
# digwyddiadau diogelu	
Data Arall: Data Meincnodi. Adborth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae gan yr Awdurdod weithlu sydd wedi'i rymuso ac sy'n gydnerth ac yn meddu ar y sgiliau a'r cymhelliant angenrheidiol i gyrraedd ei nodau a chyflawni ei amcanion strategol ehangach. Mae Iechyd a Diogelwch staff yn cael eu gwarchod.	

## Ffrwd Waith 6 – Datblygu'r Aelodau

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn cefnogi Aelodau yn eu rôl ac yn parhau i gynorthwyo'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau ar ddatblygu sgiliau a'u gweithgareddau mewn perthynas â Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Lle y bo'n bosibl yn y tymor byr bydd cyfleoedd rhithwir yn cael eu defnyddio i roi cymorth i barhau i hwyluso'r gwaith hwn.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cymorth i'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau ac ennill Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cwblhau Cynlluniau Datblygiad Personol.</li> <li>✓ Siarter Uwch Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau wedi'i hennill.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
% Presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau	
% presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant	
<b>Canlyniad</b>	
Mae Aelodau'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol ac wedi'u grymuso i gynorthwyo'r Awdurdod i gyrraedd ei nodau a chyflawni ei effeithiau strategol ehangach.	

## Ffrwd Waith 7 – Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol

<b>Beth fyddwn ni'n ei wneud</b>	
Bydd yr Awdurdod yn defnyddio adborth o weithgarwch gwaith maes Archwilio Cymru i sicrhau bod y pum ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hintegreiddio yn y modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio proses Archwilio Mewnol fel dull effeithiol i adolygu ei arferion a rhoi gwelliannau ar waith. Mae gwaith wedi dechrau i wella'r modd y caiff polisïau, materion cydymffurfio a safonau corfforaethol eu cyfleu yn 2019/20 a bydd yr Awdurdod yn bwrw golwg ar ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach ar gyfer y tymor hwy. Bydd hefyd yn parhau i sicrhau y cydymffurfir â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, Safonau'r Gymraeg a rheoliadau diogelu data, rhyddid gwybodaeth a gwybodaeth amgylcheddol.	
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Cerrig Milltir</b>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Ymateb i argymhellion Archwilio Cymru – 5 Ffordd o Weithio.	✓ Newid mewn arfer neu ddull wedi'i oleuo gan argymhellion Archwilio Cymru.
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Ymateb i Argymhellion Archwilio Mewnol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cynllun Parhad Busnes yn ei le.</li> <li>✓ Newid mewn arfer neu ddull wedi'i oleuo gan argymhellion Archwilio Cymru.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r dull corfforaethol o ran cydymffurfio â rheoliadau diogelu data.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Canllawiau pellach yn eu lle i gefnogi staff</li> <li>✓ Gweithgareddau cyfathrebu mewnol.</li> </ul>

## Gweithio Tuag at Amcanion Hirdymor

<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Cyfleu polisïau a safonau corfforaethol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Gwelliant o ran sut y caiff polisïau eu harddangos ar y system share point.</li> </ul>
<b>Ffyrdd o Weithio:</b> Review of the Authority's induction process and development of programme of customer and visitor services training.	<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Adolygiad o'r broses sefydlu.</li> <li>✓ Rhaglen sefydlu newydd yn ei lle.</li> <li>✓ Pennu cwrpas rhaglen o hyfforddiant safonau gwasanaethau cwsmeriaid ac ymwelwyr.</li> </ul>
<b>Mesurau – Asesu'r effaith ar ein gwasanaethau a goleuo adferiad</b>	
# cwynion a dderbyniwyd	
# cwynion ynghylch yr Iaith Gymraeg a wnaed i'r Awdurdod	
# cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	
% y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd â'r Gymraeg yn hanfodol	
# Asesiadau o Effaith Diogelu Data wedi'u cwblhau	
# yr achosion o Dorri Deddfwriaeth Diogelu Data yr hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch	
% yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol	
% yr ymatebion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y terfyn amser gofynnol	
% yr ymatebion i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol	
% y sylw cadarnhaol/niwtral yn y cyfryngau	
<b>Data Arall:</b> Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Adroddiadau Archwilio Mewnol. Adborth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.	
<b>Canlyniad</b>	
Mae'r Awdurdod yn myfyrio ac yn gwella'n barhaus, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nodau ac yn cyflawni ei effeithiau strategol ehangach ac yn ateb gofynion cydymffurfio. Mae pobl sy'n dod i gysylltiad â'r Awdurdod yn cael lefel uchel o ofal cwsmeriaid.	

## Atodiad 1 Amcangyfrif Drafft Cryno – Gwariant Gros 2020/21 ar y 7 Nod Llesiant

		Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlyn	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar fyd lefel fyd eang	Cyfanswm
		18%	17%	15%	11%	11%	17%	11%	100%
<b>000s</b>									
Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol		86	260	17	17	22	0	45	447
Gwarchod y Dreftadaeth Ddiwylliannol		0	0	0	0	10	149	6	165
Hamdden a Rheoli'r Parc		240	48	24	48	48	48	24	480
Hybu Dealltwriaeth		69	51	34	25	51	34	25	289
Parcmy, Ystadau a Gwirfoddolwyr		303	262	351	160	132	421	158	1,787
Rheoli Datblygu		80	61	78	40	40	38	47	384
Blaengynllunio a Chymunedau		184	184	184	184	184	184	184	1,288
Cynryciolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd		116	83	116	83	83	83	83	647
Gwasanaethau Cymorth		179	179	179	179	179	179	179	1,253
<b>Cyfanswm Gwariant Gros Gwasanaethau</b>		<b>1,257</b>	<b>1,128</b>	<b>983</b>	<b>736</b>	<b>749</b>	<b>1,136</b>	<b>751</b>	<b>6,740</b>
Incwm o grantiau, ffioedd, taliadau, trosglwyddiadau EMR a.y.b									-1,776
Ardoll a Grant PC									-3,939
Addasiad nad yw mewn arian parod									-1,010
Llog Banc									-15



## Atodiad 2

Ffrydiau Gwaith yn erbyn y Pum Ffordd o Weithio a Nodau Llesiant Cymru												
✓ mae hyn yn dynodi cyfraniad cryf at y nod llesiant hwn												
✓ mae hyn yn dynodi cyfraniad anuniongyrchol neu gyfyngedig at y nod llesiant hwn												
Ffrydiau gwaith	5 Ffordd o Weithio					Nodau Llesiant Cymru						
	Hirdymor	Atal	Cydweithio	Integreiddio	Cynnwys	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
<b>Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.</b>												
Polisiâu Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth	✓	✓	✓	✓		✓		✓	✓	✓		
Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy Rheoli a Hyrwyddo	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				✓	✓
Ymgysylltu â Thwristiaeth a Chynulleidfaoedd Newydd	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Busnesau Lleol	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Trawsnewid Cyflogaeth yn Sir Benfro	✓		✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓
<b>Cydnherth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.</b>												
Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓
Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓
Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓
Cynllunio: RHA NG ac ymateb i gollu bioamrywiaeth	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓		✓
Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓		✓		✓
Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓
<b>Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.</b>												
Cyfleoedd Cerdded â Chymorth	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓		✓	✓
Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓		✓	✓
Mentrau a Phrosiectau Iechyd a Lles	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓		✓	✓
Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓		✓	✓
Cynllunio Tai Fforddiadwy	✓	✓	✓	✓		✓		✓	✓		✓	
Lles y Gweithlu	✓	✓		✓				✓	✓			
<b>Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.</b>												

Cydraddoldeb Strategol: Ein Gweithlu	✓				✓	✓		✓	✓	✓		
Cydraddoldeb Strategol: Ein Gwasanaethau	✓				✓	✓		✓	✓	✓	✓	
Tirweddau i Bawb: Cynhwysiant Cymdeithasol	✓				✓	✓		✓	✓	✓		
Tirweddau i Bawb: Profiadau Cynhwysol	✓				✓	✓		✓	✓	✓		
Ymgysylltu: Allgymorth, pobl ifanc a gwirfoddolwyr	✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<b>Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol</b>												
Ymgysylltu: Sgwrs barhaus am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cronfa Datblygu Cynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwasanaeth Cynllunio: Gorfodi ac Ymgysylltu â'r Gymuned		✓	✓		✓		✓			✓		
<b>Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.</b>												
Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes	✓	✓				✓		✓	✓	✓	✓	✓
Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Yr Amgylchedd Hanesyddol : Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Partneriaeth Treftadaeth a Chydweithio	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hyrwyddo'r Gymraeg: Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓
<b>Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.</b>												
Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<b>Llywodraethu, Cynaliadwyedd Ariannol, Datblygiad a Gwydnwch y Gweithlu</b>												
Cynllunio Tymor Hir a Blaenoriaethu Prosiectau	✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Codi Arian a Chreu Incwm	✓	✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu'r Gweithlu	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwella'r Modd yr ydym yn Gweithio - Dulliau Digidol	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Diogelwch	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu'r Aelodau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓